

the urbanists

# Corwen, Sir Ddinbych

## Dogfen Cynllun Creu Lleoedd

**Hydref 2025**

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

theurbanists


**Paratowyd gan:** The Urbanists

**Cyfeiriad:**

**Caerdydd**
Westgate House
11 Stryd Womanby
Caerdydd, CF10 1BR

**Bryste**
Studio 410, Generator Building
Finzels Reach
Bryste, BS1 6BX

**E-bost:** info@theurbanists.net

**Gwedan:** www.theurbanists.net


---


**Dyddiad cyhoeddi:** 2025.10.17

**Statws y Ddogfen:** FINAL

**Adolygiad:** E

**Awdur:** ET, SY, FV, JD & LH

**Gwiriwyd gan:** JD a LH


**Ar ran:**

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council


Mae'r holl gynlluniau yn y ddogfen hon wedi cael eu hatgynhyrchu o Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ei awdurdodi yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif y Drwydded 100054593.





POLICE STATION

## Cyflwyniad

Lluniwyd y ddogfen hon i gyd-fynd ag amcanion menter cyllid Trawsnewid Trefi, sy'n darparu cymorth hanfodol i adfywio canol trefi Cymru. Fel fframwaith ar gyfer buddsoddiad a datblygiad yn y dyfodol, nod y ddogfen hon yw rhoi Corwen mewn sefyllfa i gael mynediad at adnoddau Trawsnewid Trefi yn effeithiol wrth wasanaethu fel arf i ddatgloi cyfleoedd cyllido ychwanegol o ffynonellau eraill.

Mae'r Cynllun Creu Lleoedd hwn wedi cael ei ddatblygu gyda phwyslais ar fynd i'r afael â'r angen economaidd lleol, a oedd yn benderfynydd allweddol wrth ddewis trefi fel rhan o'r paratoadau ar gyfer y Cynlluniau Creu Lleoedd. Mae heriau a chyfleoedd unigryw Corwen wedi cael eu hystyried yn ofalus er mwyn sicrhau bod y cynllun hwn yn weledigaeth ar gyfer y dyfodol ac yn ganllaw strategol ar gyfer gwelliannau uniongyrchol a hirdymor.

Mae'r cynllun hwn yn cydymffurfio'n llawn gydag egwyddorion a chanllawiau a amlinellwyd yn y ddogfen 'Cynlluniau Creu Lleoedd ar gyfer Canol Trefi', a gyhoeddwyd gan Gomisiwn Dylunio Cymru a Llywodraeth Cymru. Trwy lynu at y safonau hyn, mae'r Cynllun Creu Lleoedd hwn yn sicrhau aliniad gyda strategaethau ac amcanion cenedlaethol, gan feithrin dull integredig i adfywio canol trefi.





# 01

# Cynlluniau Creu Lleoedd: Cyflwyniad

## Cyflwyniad

Mae Corwen yn dref farchnad allweddol yn ne Sir Ddinbych yn gweithredu fel cyrchfan dwristiaeth i ymwelwyr i'r sir ac fel canolfan gwasanaethau i'r gymunedol leol fechan. Fel un o'r trefi lleiaf a man gorffen y rheilffordd dreftadaeth o Langollen i Gorwen, mae ganddi rôl dreftadaeth strategol bwysig sy'n cyfrannu at yr arlwy gyffredinol i dwristiaid yn y sir.

Fel llawer o drefi yng Nghymru a'r DU, mae Corwen wedi wynebu heriau caled yn ystod y blynyddoedd diwethaf; mae mwy o gystadleuaeth gan fanwerthwyr y tu allan i'r dref yn rhanbarth ehangach Gogledd Cymru ac mae'r cynnydd parhaus mewn gwerthu ar-lein wedi golygu cystadleuaeth gref i siopau traddodiadol y stryd fawr. Gwaethygodd hyn yn sgil pandemig Covid-19 a wnaeth amgylchedd masnachol a oedd eisoes yn anodd ar gyfer busnesau'r stryd fawr yn waeth, gan gau mwyafrif y stryd fawr am gyfnodau hir a thorri nifer o fusnesu oddi wrth eu cwsmeriaid ffyddlon.

Nodweddir Corwen fel anheddiad sy'n darparu ystod lai o wasanaethau meddygol, addysgol, ariannol a manwerthu o'i gymharu â'r prif ganolfannau eraill yn y sir. Cydnabyddir bod ganddi rôl leol o ran darparu gwasanaethau a chyfleusterau ar gyfer aneddiadau cyfagos a chefn gwlad.

Yn ddiweddar, mae'r dref wedi elwa o orsaf drenau treftadaeth newydd, a gafodd ei hariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a'r disgwyl yw y bydd yn rhoi hwb i dwristiaeth yn yr ardal. Er mwyn helpu'r dref i adfer a ffynnu yn y pen draw, paratowyd y Cynllun Creu Lleoedd hwn. Mae'r cynllun yn cynnig gweledigaeth bwrpasol ar gyfer Corwen, yn seiliedig ar ddyheadau'r preswylwyr, busnesau a'r Cyngor. Mae'n nodi ein huchelgeisiau ar gyfer canol y dref yn unol â Siarter Creu Lleoedd Cymru ac yn egluro'r mathau o gamau fydd yn cael eu holrhain a'u cyflawni.




Corwen stands on the banks of the River Dee beneath the Berwyn mountains. The town is situated 10 miles (16 km) west of Llangollen and 13 miles (21 km) south of Ruthin.

## Pwysigrwydd yn y Sir

Mae Corwen yn ward Cynwyd ac mae'n ganolbwynt i aneddiadau o'i chwmpas yn cynnwys Carrog, Clawdd Poncen a Glyndyfrdwy.

Corwen yw'r dref fawr olaf ar hyd llwybr yr A5 o Lundain i Gaergybi. O'r herwydd, mae sawl gwesty'n dal yno oedd unwaith yn dafarndai i goets y post a'r goets fawr. Er nad yw'r A5 mor bwysig â llwybr arfordirol yr A55 i Gaergybi erbyn hyn, mae llawer iawn o draffig yn dal i fynd i lawr stryd fawr gul canol tref Corwen.

Mae gwasanaethau bysiau ar gael o Gorwen i Wrecsam drwy Langollen ar wasanaethau 5 a T3, i'r Bermo drwy'r Bala a Dolgellau ar wasanaeth T3 ac i Ruthun ar wasanaeth X5, ac mae gwasanaethau'n parhau i Ddinbych. Mae gwasanaeth ddwywaith y dydd yn ystod yr wythnos i Lanrwst ac un daith wedi ei hymestyn o/i'r Bala.

Mae'r dref wedi'i chysylltu â Rheilffordd Llangollen yn ystod y ddegawd ddiwethaf. Yn 2,014, agorwyd gorsaf dros dro o'r enw Dwyrain Corwen ac ym mis Mehefin 2023, agorwyd gorsaf barhaol newydd yng Nghorwen.

Mae'r orsaf barhaol hon ger prif faes parcio'r dref, yn agos i ganol y dref.

Fel canolfan bro, mae Corwen yn darparu ystod o swyddogaethau a gwasanaethau i'r aneddiadau o'i hamgylch nad ydynt ar gael yn unman arall yn y ward.

Mae Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ddinbych a'r buddsoddiad diweddar yn y dref yn atgyfnerthu rôl Corwen fel cyrchfan i dwristiaid a chanolbwynt cyflogaeth lleol, gan sicrhau bod dewis o safleoedd cyflogaeth yn y sir.



## Polisi Cenedlaethol

Mae Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a Pholisi Cynllunio Cymru yn nodi creu lleoedd fel ffordd o gynyddu lles a chreu lleoedd cynaliadwy. Mae'r trefi a ddewiswyd ar gyfer y Cynlluniau Creu Lleoedd hyn yn seiliedig ar angen economaidd. Mae creu lleoedd yn ddull cyfannol o gynllunio a dylunio datblygiad sy'n ystyried cyfleoedd datblygu'n gyfannol yng nghyd-destun yr ardal leol, er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ac yn cefnogi'r gymuned orau. Yn y ffordd hon mae creu lleoedd yn sicrhau dyluniad a darpariaeth datblygiad sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd

Mae creu lleoedd yn broses statudol yng Nghymru ac yn tanategu penderfyniadau er mwyn sicrhau bod datblygiad a buddsoddiad newydd yn adeiladu ar y synnwyr o le yn ein trefi a'r aneddiadau ehangach, ac yn eu gwella. Nodir hyn yn y ddogfen 'Cynlluniau Creu Lleoedd i Ganol Trefi' a gyhoeddwyd gan Gomisiwn Dylunio Cymru a Llywodraeth Cymru, y mae'r cynlluniau yn y ddogfen hon yn cydymffurfio â nhw.

I gydnabod rôl bwysig creu lleoedd, mae Siarter Creu Lleoedd Cymru wedi cael ei gyflwyno yng Nghymru ac yn adlewyrchu ymrwymiad gan y rhai sy'n ymarfer datblygu, dylunio ac adfywio, i gefnogi'r datblygiad o leoedd o safon uchel.

Mae adroddiadau ar iechyd cyffredinol yn dangos gwahaniaethau nodedig ar draws Cymru. Mae Sir Ddinbych yn disgyn o fewn y 68-69 canradd o oedolion 16 oed a hŷn, sy'n adrodd bod ganddynt iechyd da, gan amlygu lle i wella yn y maes hwn.

Mae nodau ehangach o fewn y cynllun cenedlaethol yn cynnwys cynyddu defnydd o'r Gymraeg ar draws Cymru a'i sefydlu fel iaith fyw. Mae data hanesyddol yn dangos nifer uwch o siaradwyr Cymraeg yng ngogledd y sir na'r de, o'i gymharu â data mwy diweddar, gan amlygu cyfle i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r cyfrifoldeb am amgylchedd adeiledig Cymru, yn arbennig canol trefi, yn golygu cyflawni gwytnwch hinsawdd a mynd i'r afael â newid hinsawdd, fel y pwysleisir yn y cynllun cenedlaethol, ynghyd â tharged Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru di-garbon net erbyn 2050. Mae'r pwyslais ar greu lleoedd byw, gweithio a hamdden cynaliadwy trwy hyrwyddo teithio llesol a gwneud y mwyaf o gyfleoedd cipio carbon. Mae'r dull hwn yn hanfodol er mwyn gwella gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol.

Mae gan adfywiad Corwen yn y dyfodol, y potensial i wireddu'r dyheadau canlynol a nodir o fewn y cynllun cenedlaethol:

- Gweithio tuag at aneddiadau sydd â chysylltiad ffisegol a digidol da, gan gynnig ansawdd bywyd da i'r preswylwyr.
- Creu cyfleoedd gwaith a gwella gwasanaethau cymunedol mewn ardaloedd gwledig i helpu denu a chadw pobl.
- Cydnabod bod gwahanol rannau o Gymru yn gweithio'n wahanol i'w gilydd, ac ymateb i'w nodweddion a heriau unigryw.
- Ceisio cael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 - cynnydd o bron i 80% ar y lefelau presennol. Gall Corwen gyfrannu at hyn.
- Datblygu cynlluniau sy'n flaengar gydag agwedd gadarnhaol tuag at alluogi datblygiad economaidd, buddsoddiad ac arloesedd.
- Sicrhau bod yr holl ddulliau teithio gydag effeithiau amgylcheddol isel ac allyriadau isel, gyda chynnydd yn y defnydd o gludiant cyhoeddus a cherbydau allyriadau isel yn hytrach na cherbydau petrol a disel heddiw.
- Gwella darpariaeth band eang a fydd yn helpu busnesau i fod yn fwy cynhyrchiol, gwydn ac arloesol a gwella ffordd o fyw i gymunedau ac unigolion.
- Cydnabod a manteisio ar adnoddau naturiol Cymru, gan gynnwys ei fwynau, pridd a geoamrywiaeth, arfordir, dŵr, coedwigoedd a thirwedd a'u posibilrwydd i gefnogi ystod o weithgareddau a sectorau. Mae'r asedau hyn yn werthfawr yn eu rhinwedd eu hunain.
- Hyrwyddo a darparu cymdeithas gystadleuol, gynaliadwy a di-garbon.

**Nodyn Cyngor Technegol 15 (TAN15); Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol (2023)**

Mae TAN 15 yn darparu canllaw technegol i gefnogi Polisi Cynllunio Cymru (PCC), gan helpu i fodloni ei ofynion a hyrwyddo creu lleoedd cynaliadwy.

Egwyddorion Craidd TAN 15:

- Cyd-fynd â Strategaeth Genedlaethol Cymru ar gyfer Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol, gan gefnogi dull yn seiliedig ar risg ar gyfer datblygiadau newydd sydd mewn ardaloedd sy'n dueddol o ddioddef llifogydd.

Yn diffinio risg fel:

- Y tebygolrwydd o lifogydd.
- Effaith posibl os yw digwyddiad o'r fath yn digwydd.

Gall ddefnyddio TAN 15 effeithio'n sylweddol ar ddatblygiadau arfaethedig megis Corwen.

Mae'r pwyntiau allweddol yn cynnwys:

1. **Cyfyngiadau ar Ddatblygiad:** Ni ellir adeiladu llety dros nos ac adeiladau "hynod o fregus" (e.e. cartrefi gofal, ysgolion) ar ardaloedd sy'n dueddol o brofi llifogydd.
2. **Gofynion o ran Isadeiledd:** Rhaid i ddatblygiadau fod ag isadeiledd llifogydd cadarn a llwybrau mynediad brys sy'n parhau i fod yn weithredol yn ystod llifogydd.
3. **Cymhlethdodau Cynllunio:** Mae cydymffurfio â TAN15 yn ychwanegu'r angen am asesiadau risg llifogydd, gan arwain at oedi o ran cymeradwyo a chostau cynyddol.
4. **Effaith ar Ddefnydd Tir:** Gall parthau risg llifogydd gyfyngu ar botensial datblygu, gan effeithio ar hyfywedd prosiect neu'r angen am ddefnydd amgen megis gofodau hamdden neu fasnachol.

Mae TAN15 hefyd yn amlygu cyfleoedd i integreiddio mesurau atgyfnerthu rhag llifogydd, megis isadeiledd gwyrdd a Systemau Draenio Cynaliadwy.

**Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy: Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Wyrddach (2024)**

Ar 30 Ionawr 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei ymgynghoriad Papur Gwyn, 'Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy: Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Wyrddach (2024). Mae'r Papur Gwyn yn cynnig ymgorffori egwyddorion amgylcheddol i gyfraith Cymru, gan sefydlu corff llywodraethu i oruchwylio cydymffurfiaeth a chreu fframwaith strategol gyda thargedau bioamrywiaeth ar gyfer adferiad natur. Mae'r mesurau hyn yn tanlinellu'r angen am gamau gweithredu trawsnewidiol, hirdymor i fynd i'r afael a'r argyfyngau hinsawdd a natur, fel yr amlinellir yn y Rhaglen Lywodraethu.

Roedd yr ymgynghoriad, a ddaeth i ben ar 30 Ebrill gyda 1,171 o ymatebion, yn amlygu ymgysylltiad cyhoeddus ac fe ddarparodd adborth gwerthfawr. Mae dadansoddiad annibynnol o'r ymatebion wedi cael ei gyhoeddi, ar y cyd ag Ymateb Polisi yn manylu ar y themâu allweddol a chamau'r llywodraeth mewn ymateb i'r mewnbwn a dderbyniwyd. Mae'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu hinsawdd a natur, gan gynnal safonau amgylcheddol ar ôl Brexit, a meithrin cydweithrediad parhaus gyda budd-ddeiliaid er mwyn siapio cyfeiriad polisi yn y dyfodol.

Prif bwyslais Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gorchymyn bod pob endid cyhoeddus yn blaenoriaethu meddwl hirdymor, yn meithrin cyfleoedd cydweithio ag unigolion, cymunedau ac ymhlith ei gilydd ac yn ymdrechu ar y cyd i wella lles Cymru. Mae'r Ddeddf yn amlinellu saith nod lles i lywio camau gweithredu a'r dull y dylai cyrff cyhoeddus eu defnyddio yn eu hymdrechion.

Wrth wraidd y Ddeddf mae datblygiad cynaliadwy, gan bwysleisio ei bod yr un mor bwysig gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae pob agwedd ar les yr un mor bwysig â'i gilydd, sy'n golygu bod angen gwella'r pedwar ohonynt. Bydd y dull hwn yn sicrhau bod "anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb beryglu anghenion y dyfodol."

Mae cynaliadwyedd yn parhau'n ganolog i strategaethau amgylcheddol a newid hinsawdd Llywodraeth Cymru. Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol, fel ail ganlyniad statudol Deddf yr Amgylchedd (Cymru), wedi'i lywio tuag at stiwardiaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol Cymru. Ei brif amcan yw gwneud y mwyaf o rôl yr adnoddau hyn wrth wireddu'r amcanion a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r polisi'n nodi tair Blaenoriaeth Genedlaethol:

- Darparu datrysiadau'n seiliedig ar natur
- Cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau
- Datblygu dull yn seiliedig ar le

Future Wales: The National Plan 2040 and Planning Policy Wales requires planning, investment and development to create sustainable places. Sustainable places have the right mix of homes in the right place; include local employment and services; have excellent public transport and active travel infrastructure; and, are green. National policy defines that they also require mixed-use town centres that satisfy local needs.

In recognition of the key role that town centres have in building sustainable places, the Welsh Government has introduced the 'Town Centre First' principle, which requires all new major commercial, retail, education, health and public service investment and proposals to be located in town centres. Further, the Welsh Government has established the Transforming Towns funding programme, to enable projects to redevelop and improve town centres and nearby areas. Placemaking Plans are a requirement to access this funding.




Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol




Olwyn Nodau Lles

## Polisi Rhanbarthol

Cynllun Adfywio Gogledd Cymru 2018 - 2035 (2018)

Mae'r strategaeth yn gweithio fel dogfen ganllaw gyda'r nod o gysoni ymdrechion adfywio yng Ngogledd Cymru gyda mentrau cydamserol gyda'r nod o feithrin twf economaidd yn yr ardal, gan gynnwys Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru (2016) a Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru (2021). Mae'n darlunio fframwaith gofodol a thematig ar gyfer blaenoriaethu buddsoddiadau, gan amlinellu'r amcanion adfywio rhanbarthol canlynol:

- Lleihau anghydraddoldebau
- Cryfhau'r economi ymwelwyr
- Diogelu'r economi gwledig
- Moderneiddio canol trefi
- Gwella'r cynnig tai

Gweledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru (2016)

Creodd partneriaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru weledigaeth i esblygu Gogledd Cymru yn: "rhanbarth hyderus a chydlynol gyda thwf economaidd cynaliadwy, sy'n manteisio ar lwyddiant sectorau economaidd o werth uchel a'i chysylltiad i economïau Pwerdy Gogledd Lloegr ac Iwerddon." Seiliwyd y Weledigaeth Twf ar dair egwyddor sylfaenol:

- Blaengar – gyda phwyslais ar arloesedd mewn sectorau o werth uchel i lywio perfformiad economaidd
- Gwydn – gyda phwyslais ar gadw pobl ifanc, gwella lefelau cyflogaeth a sgiliau i gyflawni twf cynhwysol
- Cysylltiedig – gyda phwyslais ar wella cludiant a'r isadeiledd digidol i wella cysylltedd strategol i'r rhanbarth ac ynddo.



View from the South of The Workhouse

Roedd y weledigaeth a ddatblygwyd gan Uchelgais Gogledd Cymru a'i bartneriaid wedi siapio Bargen Dwf Gogledd Cymru, a arwyddwyd yn 2020. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn buddsoddi £240 miliwn ar y cyd i'r Fargen Dwf dros 15 mlynedd. Nod y Fargen Dwf yw adeiladu economi mwy llewyrchus, cynaliadwy a chryf yng Ngogledd Cymru, gan adeiladu ar ei gryfderau i hybu cynhyrchiant, gan fynd i'r afael â heriau hirdymor a rhwystrau economaidd i ddarparu twf cynhwysol. Mae tri sector twf uchel wedi cael eu targedu gan Uchelgais Gogledd Cymru i ysgogi cynhyrchiant yn y rhanbarth:

- Ynni carbon isel
- Gweithgynhyrchu gwerth uchel
- Bwyd amaeth a thwristiaeth i ysgogi cynhyrchiant yn y rhanbarth

Ar ben hynny, cydnabyddir diffygion yn y farchnad tir ac eiddo masnachol ynghyd â seilwaith digidol fel rhwystrau hanfodol i dwf ac maent hefyd wedi'u targedu ar gyfer buddsoddiad. Mae'r fframwaith yn tynnu sylw at ddiffygion yn y farchnad eiddo yn cynnwys diffyg eiddo modern, addas i bwrpas, cyflenwad annigonol o le diwydiannol masnachol a dim digon o ddefnydd o asedau presennol.

### Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru (2021)

Mae Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru, a luniwyd gan Lywodraeth Cymru, yn cynnig glasbrint sy'n darlunio sut fydd y cyhoedd, y sector preifat a'r trydydd sector yn dilyn eu blaenoriaethau. Mae cysylltiad cymhleth rhwng y fframwaith hwn a strwythur y Fargen Dwf, gyda'r amcan cyffredinol o flaenoriaethu gwelliannau i gynhyrchiant a chyflymu twf economaidd cynaliadwy a ffyniant cynhwysol. Mae tair thema graidd ar gyfer y rhanbarth wedi'u diffinio o fewn y Fframwaith:

1. Lles cymdeithasol a chymunedol;
2. Economi carbon isel; a'r
3. Economi profiad.

Mae'r Fframwaith yn cydnabod cryfderau'r rhanbarth o ran ynni carbon isel, twristiaeth a'r sectorau bwyd a diod, wrth nodi pocedi o amddifadedd, cysylltedd gwael a theithiau hirach, gyda phreswylwyr Gogledd Cymru â'r teithiau hiraf yng Nghymru.

Yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r problemau a chyfleoedd allweddol yn y rhanbarth ac adborth budd-ddeiliaid, nodir deg blaenoriaeth ar gyfer y rhanbarth gan gynnwys ardaloedd ffocws ar gyfer Cynllun Creu Lleoedd Corwen:

1. Sgiliau a'r Gweithlu;
2. Buddsoddiad mewn magnetau, canolbwyntiau, cadwyni cyflenwi, ymchwil a datblygu, arloesi ac entrepreneuriaeth;
3. Cymorth cytbwys ar gyfer mewnfuddsoddwyr a buddsoddwyr lleol;
4. Iaith, diwylliant, lle a threftadaeth;
5. Economi Sylfaenol a sylfaen BBaCh/micro bywiog;
6. Grymuso cymunedau er lles cenedlaethau'r dyfodol;
7. Cysylltedd (cludiant a digidol);
8. Elwa ar fanteision y sector cyhoeddus;
9. Ynni carbon isel; a'r,
10. Diwydiant Bwyd a Diod.

Nodir canol trefi o fewn y fframwaith fel elfen allweddol yr Economi Lles Cymdeithasol a Chymunedol. Mae rôl canol trefi i gefnogi busnesau llai i fod yn fwy cystadleuol, gweithredu fel canolbwyntiau ar gyfer amwynderau a gweithio o bell, a sefydlu canolfannau cymunedol, yn cael ei bwysleisio.




Diagram Economi Lles Cymdeithasol a Chymunedol

## Polisi Lleol

Net Zero Strategic Plan Wales, Welsh Government (2021)

The Welsh Government has set an ambitious goal to achieve net zero emissions by 2030, contributing to the collective 2030 target for the Welsh Public Sector. This net zero target places the organisation on a robust decarbonisation path, requiring significant organisational transformation. The Strategic Plan consolidates evidence and outlines priority decarbonisation initiatives, establishing a framework to identify carbon reduction opportunities and track progress toward net zero.

In 2020-21, the Welsh Government reduced its carbon footprint by 18% compared to 2019-20, partly due to COVID-19 impacts but also through proactive efforts to lessen environmental impact. Progress has been made in enhancing energy efficiency, increasing renewable energy generation, optimising operations, and engaging suppliers. The Strategic Plan now aims to expand these efforts further to meet the 2030 target. Decarbonisation targets are divided into two categories: measurable reductions in operational emissions and qualitative targets for supply chain and land use practices.

Strategaeth Natur a Hinsawdd CSDd (Gorffennaf 2024)

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi gosod targed i ddod yn Gyngor Ecolegol Gadarnhaol a Di-Garbon Net erbyn 2030, gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed trwy ei flaenoriaeth Cynllun Corfforaethol ar gyfer yr Amgylchedd a'r thema Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd (2022-2027). Mae nodau Ôl-troed Di-Garbon Net y Cyngor yn cynnwys lleihau allyriadau o adeiladau, gwastraff, cerbydau fflyd, teithio staff, goleuadau stryd a theithio busnes.

Dan arweiniad Strategaeth Hinsawdd a Natur Sir Ddinbych (2021/22 i 2029/30), mae gan y Cyngor agwedd gynhwysfawr at weithredu ar yr hinsawdd a gwella bioamrywiaeth, gan gynnwys y gymuned wrth hyrwyddo arferion cynaliadwy mewn meysydd fel

- ynni
- cludlant
- rheoli gwastraff
- defnydd tir

Nod y strategaeth hon yw torri allyriadau nwy tŷ gwydr, cynyddu gwytnwch i effeithiau hinsawdd a chefnogi ecosystemau lleol.

Bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu a'i hadnewyddu'n ffurfiol bob 3 blynedd tan 2030 (2023/24 a 2026/27).

Cynllun Ynni Ardal Leol Sir Ddinbych (2024)

Ar ran Llywodraeth Cymru, mae Uchelgais Gogledd Cymru yn rheoli contract gydag ymgynghorwyr sy'n datblygu Cynllun Ynni Ardal Leol ar gyfer Sir Ddinbych a siroedd eraill gogledd Cymru. Cafodd y cynllun ei lunio gan yr Ymddiriedolaeth Garbon ac Arup, yn dilyn dull a gydnabyddir yn rhyngwladol, ac roedd yn seiliedig ar fodelu, data a chynlluniau a syniadau budd-ddeiliaid, yn cynnwys rhai a gafwyd mewn gweithda. Bydd y cynlluniau dan berchnogaeth pob awdurdod lleol yng Nghymru. Eu nod yw bod yn arf canllaw ar y ffordd orau o weithio tuag at system ynni wedi'i datgarboneiddio'n llawn erbyn 2050.

Wedi'i deilwra i anghenion lleol wrth alinio gydag amcanion rhanbarthol a chenedlaethol, mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar drosglwyddo i ynni adnewyddadwy, gwella cryfder cymunedol a meithrin bywiogrwydd economaidd. Mae'n ceisio cryfhau cynllunio, adeiladu partneriaethau a sicrhau cyllid ar gyfer datblygu cynaliadwy.

Gan gefnogi'r thema Cynllun Corfforaethol, Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd, mae'r Cynllun Ynni Ardal Leol yn cyfrannu tuag at leihau allyriadau ac yn cyd-fynd â'r Strategaeth Natur a Hinsawdd (2021/22-2029/30). Mae'r cynllun hefyd yn datblygu Sir Ddinbych Ffyniannus trwy hybu twf economaidd ac ehangu'r economi gwyrdd. Ei weledigaeth yw cyflawni buddion lles, ecolegol, cymdeithasol ac economaidd lleol sylweddol, trwy newid i economi sero net, gan roi Sir Ddinbych mewn safle allforiwr net trydan carbon isel trwy gydweithrediad rhanbarthol.

Mae cynigion y Cynllun Ynni Ardal Leol yn rhoi cyfle i:

- Ddatgarboneiddio'r cyflenwad ynni a'r ddarpariaeth yn Sir Ddinbych
- Swyddi newydd nad ydynt yn rhai dros dro/ tymhorol
- Effeithlonrwydd ynni gwell mewn cartrefi a all gynyddu ansawdd bywyd ac iechyd a lleihau gofynion ynni
- Lleihau llygredd aer a chynyddu gwytnwch ynni

## Crynodeb Adfywio

Mae Crynodeb Adfywio Tref Corwen yn darlunio prosiectau cyfalaf sylweddol sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y dref dros y 5 mlynedd nesaf yn ogystal â phrosiectau a gwblhawyd yn ddiweddar. Mae'r amrywiaeth o brosiectau sydd wedi'u nodi yn cynnwys prosiectau adfywio arwyddocaol o fewn y dref a'r ardal gyfagos ac a gyflawnir gan Gyngor Sir Ddinbych, sefydliadau partner a'r gymuned leol.

3 prif nod y crynodeb adfywio yw:

- Rhestru'r prosiectau cyfalaf sylweddol sydd wedi'u cynllunio, gan gynnwys prosiectau sydd wedi codi o ymgynghoriadau amrywiol dros y blynyddoedd diweddar;
- Rhestru'r prosiectau cyfalaf sylweddol sydd wedi'u cwblhau yn y blynyddoedd diweddar; a
- Dechrau'r broses i ddatblygu cynllun adfywio strategol ar gyfer y dref (Cynllun Creu Lleoedd).

Mae'r crynodeb yn cynnwys prosiectau sydd wedi'u cwblhau, eu datblygu, sydd yn yr arfaeth ac sy'n ddim ond syniadau.

Mae'r crynodeb yn disgrifio Corwen fel tref fechan â diwylliant Cymreig cryf, â thirnodau diwylliannol Cymreig arwyddocaol. Mae'r crynodeb hefyd yn nodi bod yr economi leol yn cael ei nodweddu gan dwristiaeth, gweithgynhyrchu a ffermio.

Mae Crynodeb Adfywio Tref Corwen yn ddatganiad sefyllfa i helpu i restru mewn un ddogfen, y prosiectau adfywio sylweddol sydd wedi'u cynllunio a'r rhai sydd wedi'u cwblhau'n ddiweddar.

Mae'n gofnod o statws y prosiectau hynny ar ryw adeg a'i fwriad yw bod yn ganllaw yn hytrach na dogfen ddiffiniol. Bydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru bob blwyddyn.

Gellir cael mynediad at y prosiectau hyn trwy'r adran Adfywio ar wefan Cyngor Sir Ddinbych.

Mae Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Ddinbych 2018-2033 yn nodi dyheadau allweddol a meysydd twf yn y Sir. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) yn sail ar gyfer penderfyniadau cynllunio a datblygu yn Sir Ddinbych.

Mae'r polisi'n tynnu sylw at Gorwen fel 'canolfan leol' sy'n golygu ei bod yn anheddiad â rôl leol i ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau i aneddiadau cyfagos a chefn gwlad. O fewn yr hierarchaeth manwerthu, dynodir Corwen fel 'canolfan leol', sy'n golygu mai dyma'r lleoliad a ffefrir ar gyfer manwerthu, hamdden, cymdeithasol a defnydd arall yng nghanol tref, gan geisio cynnal a gwella hyfywedd a bywiogrwydd canolfannau lleol y Sir.

Mae Prosbectws Tir ar gyfer Tai (2016) yn amlygu 5.7ha o dir ar gyfer datblygiad preswyl yng Nghorwen gan amlygu pwysau cynyddol ar wasanaethau'r dref yn y dyfodol i gynnal preswylwyr.

Mae'r nodau creu lleoedd sy'n bresennol o fewn amcanion CDLI Mabwysiedig Sir Ddinbych, yn cynnwys:

- Diogelu, gwella a datblygu adnoddau naturiol Sir Ddinbych mewn modd cynaliadwy, gan gynnwys isadeiledd gwyrdd a glas, ynni adnewyddadwy ac adnoddau mwynau;
- Diogelu a gwella amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol Sir Ddinbych;
- Cefnogi darpariaeth, gweithrediad a datblygiad isadeiledd a gwasanaethau;
- Galluogi adfywio ac adnewyddu amgylchedd adeiledig a pharth cyhoeddus Sir Ddinbych i gyfrannu at ganol trefi hanfodol, hyfyw a deniadol gydag eiddo cyflogaeth sy'n bodloni gofynion busnesau modern; a,
- Chefnogi datblygiad sy'n hyrwyddo lles, gwytnwch a chydlyniant cymunedol gan gynnwys mesurau i fynd i'r afael ag effeithiau risg llifogydd a newid hinsawdd.

## Cynlluniau Creu Lleoedd

Mae cynlluniau creu lleoedd yn ffordd o sicrhau bod creu lleoedd yn cael ei ddefnyddio fel proses statudol. Mae'r cynlluniau'n hynod o bwysig i fodloni egwyddor 'canol tref yn gyntaf' Llywodraeth Cymru er mwyn mynd i'r afael â'r dirywiad yn ein strydoedd mawr traddodiadol. Maent yn darparu ffordd o osod gweledigaeth cytunedig ar gyfer canol trefi, a gefnogir gan fudd-ddeiliaid, a'u defnyddio i ddarparu buddsoddiad i wella amrywiaeth a gwytnwch a chynyddu hyfywedd.

### Siarter Creu Lleoedd Cymru

Yn 2020, datblygodd Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Dylunio Cymru, mewn cydweithrediad â Phartneriaeth Creu Lleoedd Cymru, y Siarter Creu Lleoedd Cymru.

Mae'r Siarter yn darparu cyngor ar gyfer arferion creu lleoedd a ellir ei ddefnyddio i baratoi'r cynlluniau; adeiladu ar y ffocws o greu lleoedd mewn polisi ac arferion yng Nghymru, gyda'r nod o ddarparu trosolwg o'r ystod eang o ystyriaethau. Mae hefyd yn hyrwyddo'r cread o gymunedau bywiog, cynaliadwy a chynhwysol ar draws Cymru trwy ganolbwyntio ar ansawdd a dyluniad y lleoedd lle mae pobl yn byw, gweithio a chwarae.

Er mwyn helpu i siapio ymarfer, mae'r Siarter yn cyflwyno chwe egwyddor creu lleoedd: Pobl a Chymuned; Symudiad; Parth Cyhoeddus; Lleoliad; Defnydd Cymysg a Hunaniaeth. Mae'r Cynllun Creu Lleoedd wedi cael ei baratoi yn unol â'r egwyddorion hyn. Mae'r egwyddorion wedi'u nodi isod ac wedi cael eu defnyddio i strwythuro'r ddogfen hon.




Mae'r diagram uchod yn dangos sut mae'r egwyddorion creu lleoedd, a nodir yng Nghanllaw Creu Lleoedd Cymru (2020) gyda'i gilydd yn cyfrannu at greu gwell naws am le ac amgylchedd o ansawdd uchel i bawb.

**EGWYDDORION ARWEINIOL CREU LLEOEDD CYMRU**

LLEOLIAD FFISEGOL | GWEITHGAREDD | YSTYR



### Symudiad

Mae cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus yn cael eu blaenoriaethu i ddarparu dewis o ddulliau teithio gan osgoi dibyniaeth ar gerbydau preifat. Mae llwybrau teithio llesol diogel ac wedi'u dylunio'n dda yn cysylltu i'r rhwydwaith teithio llesol ehangach a gorsafoedd ac arosfannau cludiant cyhoeddus wedi'u hintegreiddio'n gadarnhaol.

### Defnydd Cymysg

Mae gan leoedd amrywiaeth o ddibenion sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu cymunedol, twf busnesau lleol a mynediad at swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau trwy gerdded, beicio neu gludiant cyhoeddus. Mae dwysedd datblygiad a deiliadaeth a defnydd cymysg yn helpu i gefnogi cymuned amrywiol a pharth cyhoeddus bywiog.

### Lleoliad

Dylai lleoliadau dyfu a datblygu mewn ffordd sy'n defnyddio tir yn effeithlon, yn cefnogi a gwella lleoedd presennol ac wedi'u cysylltu'n dda. Mae lleoliad tai, cyflogaeth a hamdden a chyfleusterau eraill wedi'u cynllunio i helpu lleihau'r angen i deithio.

### Parth Cyhoeddus

Mae strydoedd a mannau cyhoeddus wedi'u diffinio'n glir, yn groesawgar, diogel ac yn gynhwysol gyda hunaniaeth unigryw. Maent wedi'u dylunio i fod yn gadarn, yn addasadwy, gyda thirlun, isadeiledd gwyrdd a draenio cynaliadwy wedi'u hintegreiddio'n dda. Maent wedi cysylltu'n dda gyda lleoedd presennol ac yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio'n gymdeithasol ac ystod o weithgareddau.

### Pobl a Chymuned

Mae'r gymuned leol yn rhan o ddatblygu cynigion. Ystyrir anghenion, dyheadau, iechyd a lles pawb o'r dechrau. Mae cynigion wedi'u siapio i helpu diwallu'r anghenion hyn yn ogystal â chreu, integreiddio, diogelu a/neu wella synnwyr o gymuned a hyrwyddo cydraddoldeb.

### Hunaniaeth

Mae nodweddion cadarnhaol, unigryw y lleoedd presennol yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae nodweddion a chyfleoedd unigryw lleoliad yn cynnwys treftadaeth, diwylliant, iaith a rhinweddau ffisegol adeiledig a naturiol yn cael eu nodi ac ymatebir iddynt.


POST OFFICE
SWYDDFA'R POST

## Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid

Mae ymgysylltiad yn hanfodol ar gyfer datblygu Cynlluniau Creu Lleoedd llwyddiannus. Mae'n hanfodol deall a darparu ar egwyddorion creu lleoedd Cymunedol a Hunaniaeth y Siarter Creu Lleoedd, ac mae hefyd yn hanfodol sicrhau perchnogaeth a rennir a galluogi'r holl fudd-ddeiliaid sy'n rhan o siapio cymeriad a hyfywedd trefi i gydweithio i ddarparu buddsoddiadau.

Mae Cynllun Creu Lleoedd Canol Tref Corwen wedi cael ei danategu gan ymgysylltiadau budd-ddeiliaid lleol gydag ystod eang o fudd-ddeiliaid proffesiynol a lleol. Mae hyn wedi cynnwys Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych, Aelodau Lleol, y Cyngor Tref, perchnogion busnesau lleol a'r gymuned. Cyflawnwyd ymgysylltiad trwy amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys gweithdai ar-lein ac wyneb yn wyneb a threulio amser yng nghanol y dref.

Cynhaliwyd yr ymgysylltu cyntaf rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2024, a dilynodd ymgysylltiad arall ym mis Medi 2024 gan lywio'r paratoadau ar gyfer y Cynllun Creu Lleoedd. Mae trosolwg o'r broses ymgysylltu isod. Darperir rhagor o wybodaeth am yr adborth a gasglwyd yn ystod yr ymgysylltiad yn ddiweddarach yn y ddogfen.

**1. Ymweliad Safle**
Cyfarfu'r tîm dylunio yng Nghorwen gyda'r cleient a budd-ddeiliaid lleol allweddol gan dreulio amser yng nghanol y dref i ymweld â safleoedd ac adeiladau allweddol i nodi cyfleoedd a heriau posibl.

**Chwefror 2024**
Ymweliad Safle

**2. Swyddogion CSDd**
Ar ôl datblygu dadansoddiad lle cychwynnol o'r dref, cynhaliwyd gweithdy gyda swyddogion Cyngor dethol. Darparodd eu mewnwelediad a gwybodaeth arbenigol ddealltwriaeth helaeth o'r problemau a chyfleoedd presennol yn y dref gan amlygu heriau penodol.

**Ebrill 2024**
Gwethdy Ymgysylltiad
[Ymgysylltiad Arlein]

**3. Aelodau Tref**
Rhoddodd y gweithdy ar-lein gyda'r aelodau tref gyfle i gasglu mwy o wybodaeth werthfawr. Darparodd ymgysylltiad gydag aelodau o'r dref drosolwg cychwynnol clir o broblemau a chyfleoedd pennaf canol y dref o safbwynt y gymuned.

**Mai 2024**
Aelodau Tref
[Ymgysylltiad Ar-lein]

**4. Y Gymuned a Busnesau**
Cynhaliwyd ymgysylltiad agored yn Llyfrgell Corwen a Pharc Coffa'r Rhyfel gyda chefnogaeth byrddau ymgysylltu i hwyluso sgyrsiau. Darparodd y digwyddiad ddarlun clir o'r prif broblemau a chyfleoedd ym marn trigolion lleol.

**Mehefin 2024**
Ymgysylltiad Cymunedol

**5. Cynghorwyr Sir**
Cynigiodd ail rownd o weithdai ar-lein gydag aelodau tref gyfleoedd pellach i gasglu gwybodaeth werthfawr. Helpodd yr ymgysylltiad hwn i fireinio dealltwriaeth gychwynnol o brif heriau a chyfleoedd canol y dref o safbwynt y gymuned.

**Medi 2024**
Aelodau Tref
[Ymgysylltiad Ar-lein]

**6. Y Gymuned a Busnesau**
Cynhaliwyd ail rownd yr ymgysylltiad cyhoeddus yn Llyfrgell Corwen a Pharc Coffa'r Rhyfel, gyda chefnogaeth byrddau ymgysylltu i annog trafodaethau. Fe wnaeth y digwyddiad ein helpu ni i fireinio'r hyn a weithiodd yn dda a chanfod y meysydd ar gyfer gwella yn y Cynllun Creu Lleoedd.

**Medi 2024**
Ail Rownd o Ymgysylltiad Cymunedol

**7. Swyddogion CSDd**
Rhoddodd gweithdy olaf gyda Swyddogion CSDd gyfle i gasglu mwy o wybodaeth werthfawr. Roedd yr ymgysylltiad hwn yn cynnig trosolwg cychwynnol clir o'r prif faterion a mewnwelediad, gan helpu ein dealltwriaeth o'r hyn a allai weithio'n dda ar gyfer Corwen.

**Medi 2024**
Swyddogion CSDd
[Ymgysylltiad Ar-lein]

**Rhagfyr 2023**
Dechrau'r Prosiect

Cyfleoedd a Phroblemau Canol y dref

**Rhagfyr 2024**
Diwedd y prosiect




Nodau ymgysylltu â budd-ddeiliaid The Urbanists.









# 02

# Corwen Heddiw: Dadansoddiad o Le

## Hanes a Diwylliant Corwen

Mae Corwen, a elwir yn "Groesffordd Gogledd Cymru" yn ymfalchïo mewn hanes cyfoethog ac amrywiol sy'n adlewyrchu ei lleoliad strategol a'i phwysigrwydd diwylliannol. Mae'r dref fechan hon wedi cael amrywiaeth o ymwelwyr a phreswylwyr, yn amrywio o'r Rhufeiniaid a seintiau'r chweched ganrif i fyddinoedd oedd yn goesgyn ac amddiffyn, porthmyn gwartheg a theithwyr ar goets yn Oes Fictoria. Mae ei lleoliad ar ffordd brysur yr A5, sy'n cysylltu Llundain â Chaergybi wedi cryfhau enw da Corwen fel cyffordd ganolog yn y rhanbarth.

Ystyr yr enw Corwen yw "yr eglwys wen", sy'n cyfeirio at ei gwreiddiau mewn cymuned grefyddol a sefydlwyd o gwmpas y seintiau Llydewig Mael a Sulien, a ymgartrefodd yn yr ardal yn y chweched ganrif. Mae eglwys y plwyf, a gysegrwyd i'r seintiau hyn, yn dyddio'n ôl i'r 13eg ganrif ac mae'n cynnwys arteffactau a phensaernïaeth ganoloesol arbennig.

Ond cysylltiad enwocaf Corwen efallai yw hwnnw ag Owain Glyndŵr, Tywysog olaf Cymru. Arweiniodd Owain Glyndŵr wrthryfel arwyddocaol yn erbyn rheolaeth Lloegr yn gynnar yn ystod y 15fed ganrif, ac mae ei gyfraniad yn dal yn amlwg yn y dref. Saif cerflun trawiadol ohono yng nghanol y dref, yn arwydd o'i ddylanwad ac sy'n rhoi ymdeimlad cryf o hunaniaeth i Gorwen.

Yn raddol, tyfodd y dref o tua deg ar hunain o dai a adeiladwyd o amgylch yr eglwys i dref farchnad lewyrchus â thafarndai. O ganlyniad i ddatblygu isadeiledd, sef ffordd newydd Telford yn yr 1820au a'r trenau oedd yn dod i'r dref yn yr 1860au, daeth mwy o bobl i Gorwen a thrwyddi yn gyflymach ac yn fwy diogel.

Mae Wyrcws Corwen, a gwblhawyd yn 1840 ar gyfer Undeb Cyfraith y Tlodion Corwen, yn cynrychioli pennod bwysig yn hanes cymdeithasol y dref. Wedi'i sefydlu dan ddeddfwriaeth o'r 1830au gyda'r nod o reoli costau cynyddol tlodion ym Mhrydain, roedd lle i hyd at 150 o bobl o saith plwyf yn y wyrcws. Roedd ei ddyluniad ar ffurf croes yn gwahanu dynion a bechgyn oddi wrth y merched a'r genethod, oedd yn adlewyrchu arferion cymdeithasol a sefydliadol yr oes. Bellach, dyma'r unig adeilad wyrcws ar ffurf croes sydd ar ôl yng Nghymru.

Gwelwyd cyfnod o dwf sylweddol yng Nghorwen pan gyrhaeddodd y rheilffordd yn y 19fed ganrif. Fel tref farchnad a chanolfan gludiant oedd yn tyfu, roedd y rheilffordd yn cysylltu Corwen â threfi a dinasoedd mwy, gan sbarduno datblygiad economaidd a meithrin cysylltiadau gwell.

Yn yr 20fed ganrif, gwelwyd dirywiad yng ngweithgareddau diwydiannol Corwen, ond mae ymdrechion ar y cyd wedi bod i gadw ei threftadaeth hanesyddol. Mae Amgueddfa Corwen, sy'n cael ei rhedeg gan y gymuned leol, yn dangos hanes cyfoethog y dref. Hefyd, mae ailsefydlu Rheilffordd Llangollen i Gorwen yn brosiect treftadaeth nodedig, sy'n tynnu sylw at ymrwymiad y dref i gynnal ei hetifeddiaeth hanesyddol.

Un o uchafbwyntiau diwylliannol Corwen oedd cynnal yr Eisteddfod yr Urdd gyntaf yn 1929, a gynhaliwyd dros ddau ddiwrnod ym Mhafiliwn Corwen. Roedd yr adeilad eiconig hwn a gafodd ei ddymchwel yn 2010 oherwydd pryderon am ddiogelwch, unwaith yn un o'r neuaddau cyhoeddus llawr fflat mwyaf yng Ngogledd Cymru ac roedd yn lleoliad poblogaidd ar gyfer digwyddiadau mawr.

Yn gyffredinol, mae hanes Corwen yn glytwaith o bwysigrwydd crefyddol, gwrthryfel gwleidyddol, diwygio cymdeithasol a balchder diwylliannol. Mae'r tirnodau a'r prosiectau treftadaeth dan arweiniad y gymuned yn parhau i ddathlu a chadw gorffennol difyr y dref.

Mae ymdeimlad cryf o gymuned yn parhau yng Nghorwen. Mae Amgueddfa Corwen yn cael ei rhedeg yn llwyr gan wirfoddolwyr ac mae trigolion lleol wedi sefydlu ac yn berchen i raddau helaeth ar fentrau megis Hydro Corwen. Mae'r prosiect hwn yn defnyddio nentydd Nant y Pigyn a Nant Cawrddu i gynhyrchu 55 o oriau cilowat o drydan, digon ar gyfer 40 o gartrefi bob blwyddyn, gan ddarparu mwy o drydan fforddiadwy i'r gymuned.







# Dadansoddiad o Ganol y Dref




## Dadansoddiad o Le

Er mwyn deall y problemau a chyfleoedd, cyflawnwyd dadansoddiad o le ffisegol o ganol y dref. Roedd y dadansoddiad yn ystyried pob un o egwyddorion Siarter Creu Lleoedd Cymru, gan fyfyrio ar bob agwedd allweddol sy'n cyfrannu at naws am le; gweithgaredd; lleoliad ffisegol ac ystyr.

## Ystyr

### Pobl a Chymuned

- Pobl a'r Ymdeimlad o Gymuned - Er bod gan gerbydau le blaenllaw mewn mannau cyhoeddus allweddol a bod nifer o eiddo gwag yng nghanol y dref, mae yno sawl gwasanaeth lleol sy'n rhan bwysig o gymuned Corwen. Unwaith, cynhaliwyd digwyddiadau diwylliannol ym Mhafiliwn Corwen, oedd â dylanwad cymunedol cryf ond sydd wedi'i ddymchwel erbyn hyn.Iechyd a Lles - Llwybrau teithio llesol gwael sydd rhwng y dref a'r trefi o'i chwmpas, sy'n golygu bod pobl yn dibynnu ar ddulliau teithio heb fod yn rhai gwyrdd, sy'n gallu cael effaith negyddol anuniongyrchol ar iechyd a lles preswylwyr ac ymwelwyr. Mae rhai cyfleusterau chwaraeon da ond mae angen cysylltiadau gwell i gerddwyr iddynt.

- Hygyrchedd - Mae hygyrchedd gweddol dda yng Nghorwen, sy'n cynnwys wyneb da ar ffyrdd a phalmentydd ynghyd ag opsiynau cludiant cyhoeddus hygyrch a thopograffeg fflat yn bennaf. Fodd bynnag, mae'r ffyrdd llydan wedi arwain at balmentydd cul, sy'n peri problemau i rai mewn cadeiriau olwyn a cherddwyr sy'n gwthio pram.

- Cyfleusterau i Bobl Ifanc - Mae sawl cyfleuster hamdden i bobl ifanc, yn cynnwys caeau chwarae ar gyfer nifer o chwaraeon a pharc, ond mae dyhead a chyfleoedd ar gyfer mwy o welliannau i'r ddarpariaeth.

Bellach, Wyrcws Corwen yw'r unig wyrcws ar ffurf croes sydd ar ôl yng Nghymru, ac mae'n atyniad treftadaeth i ymwelwyr.

### Hunaniaeth

- Diwylliant a Threftadaeth - Mae gan Gorwen dreftadaeth Gymreig gref ac yma y cynhaliwyd yr Eisteddfod yr Urdd gyntaf. Mae cysylltiadau hanesyddol ag Owain Glyndŵr hefyd a safle ei senedd, ac o'r herwydd mae cerflun ohono ar sgwâr y dref. Mae nifer o fyrddau gwybodaeth treftadaeth o amgylch y dref hefyd i egluro pwysigrwydd hanesyddol rhannau o'r dref.

- Cymeriad Pensaernïol - Mae llawer o adeiladau rhestredig yng nghanol tref Corwen, megis Eglwys Sant Mael a Sant Sulien, Gwesty Owain Glyndŵr a Wyrcws Corwen, un o'r rhai olaf yng Nghymru. Mae'r hen orsaf heddlu hefyd yn adeilad nodedig yng Nghorwen ac mae bellach wedi cael ei ail-wneud yn llety hunanarlwyo. Mae cyfleoedd yng Nghorwen i wella'r adeiladau hyn ac i hwyluso eu mwynhad.

- Y Dirwedd o Amgylch - Amgylchynir y dref gan dirwedd Dyffryn Dyfrdwy a'r Berwyn ac mae Afon Dyfrdwy sy'n ymdroelli drwy'r dref yn cyfrannu at gymeriad naturiol Corwen.

- Mannau Cymunedol Allweddol - Mae sawl man cymunedol yng nghanol tref Corwen, megis Canolfan Gymunedol Corwen, Amgueddfa Corwen ac Eglwys Sant Mael a Sant Sulien. Mae'r prif sgwâr cyhoeddus yng nghanol y dref yn un o'r prif fannau ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol. Gallai lle nad yw'n cael ei ddefnyddio yng nghanol y dref ac o'i gwmpas weithio'n galetach i gefnogi cydlyniant cymunedol a stiwardiaeth.


Cerflun Owain Glyndŵr yng nghanol y dref


Y Wyrcws gyda'r mynyddoedd o'i amlgylch


Yr olygfa o ganol y dref tuag at Eglwys Sant Mael a Sant Sulien


Canolfan Gymunedol Corwen


Adeilad yr Hen Fanc


Arwynebau mannau cyhoeddus


Corwen FC
Corwen Cricket Club
Green Lane
Corwen Heritage Railway Station
Bridge Street
The Square
Hill Street
A5
Corwen Pavilion Site
London Road
Coed Pen-y-Pigyn Viewpoint
Legend
Ffin y Safle
Canol y Dref
Ffordd
Ardal i gerddwyr
Symud ffordd arfaethedig
Tynnu'r arhosfan bws arfaethedig
Arhosfan Bws Arfaethedig
Blaenoriaeth i gerddwyr
Llwybr teithio llesol arfaethedig
Parc
Maes Prosiect Allweddol
Adeilad Hanesyddol Allweddol
Adeilad Cymunedol Allweddol
Gwell Llwybr i gerbydau
Gwell Llwybr i gerddwyr
Porth gwell
Pavement widening
Gofod cyhoeddus
Golygfeydd allweddol i'w dal
Gwell arwyddbyst
Cyffordd T arfaethedig
Llwybr teithio llesol
Cyfle adfywio i'r dyfodol
Blaenoriaeth i gerddwyr
Ffin Datblygu
Ffin Canol y Dref
Ffin Cadwraeth

# Dadansoddiad o Ganol y Dref




## Gweithgaredd

### Symudiad

- Symudiad Cerbydau - Y brif ffordd i Gorwen yw'r A5 ac mae'r traffig yn symud yn bennaf o'r dwyrain i'r gorllewin. Mae'r ffordd yn cysylltu Corwen â threfi cyfagos megis Llangollen a Rhuthun ynghyd â llwybr tuag at drefi mwy megis Wrecsam i'r dwyrain. Ar hyn o bryd, mae symudiad cerbydau drwy'r dref yn cyfrannu at amgylchedd llai croesawgar yn y canol ar gyfer y gymuned ac ymwelwyr.
- Parcio - Mae maes parcio cyhoeddus y tu ôl i ganol y dref i'r Gogledd, sydd hefyd yn borth i'r dref o gyfleuster Rheilffordd Llangollen. Mae rhywfaint o fannau parcio ar y Sgwâr ei hun, er nad oes llawer o le. Mae'r parcio ynghyd ag isadeiledd y ffordd yn cymryd lle blaenllaw ym mharth cyhoeddus y canol.
- Cludiant Cyhoeddus - Gan nad oes rheilffordd gyhoeddus, y gwasanaeth bysiau yw'r prif gludiant cyhoeddus yng Nghorwen. Mae'n cysylltu Corwen ag ardaloedd o amgylch ac mae'r orsaf fysiau yn y maes parcio mawr i'r Gogledd o ganol y dref ac i'r Dwyrain a'r Gorllewin o'r canol.
- Rheilffordd - Ers talwm, roedd gorsaf reilffordd yng Nghorwen ar y llinell o Riwabon i'r Bermo, oedd yn cael ei chynnal gan Great Western Railway. Fodd bynnag, fe'i caewyd yn ystod y 1960au yn ystod toriadau Beeching. Mae grantiau diweddar wedi ei hailsefydlu fel Rheilffordd treftadaeth Llangollen, sy'n dod i ben y tu allan i ganol tref Corwen ac sy'n darparu ased treftadaeth sylweddol ac yn denu ymwelwyr i'r dref.
- Symudiad Cerddwyr - Er bod y palmentydd yn gul mewn rhai mannau a bod ceir yn cael y lle blaenllaw, mae rhwydwaith o gysylltiadau sy'n gyfeillgar i gerddwyr ac mae rhai'n arwain at y llwybrau cerdded yng Nghorwen ac o amgylch. Mae mwyafrif yr amwynderau yn cynnwys siopau, caffis a gwasanaethau cyhoeddus o fewn cyrraedd ar droed i'w gilydd.
- Symudiad Teithio Llesol / Isadeiledd Beicio -Ni chydnabyddir llwybrau beicio ffurfiol yng Nghorwen ac mae ffordd yr A5 a phatrymau hanesyddol y strydoedd yn atal cysylltiadau beicio yn y dref. Mae llwybrau beicio mynydd â golygfeydd hardd ar Fynydd y Berwyn.
- Pyrth - Mae ceir yn cymryd lle blaenllaw ym mhyrth y dref ac mae llwybrau cerddwyr ar ymylon Corwen yn wael.

### Defnydd Cymysg

- Canol y Dref - Mae canol y dref yn y Sgwâr ac mae'n cynnwys sawl busnes ar gyfer y gymuned megis becws, fferyllfa, swyddfa'r post a chaffis. Mae hefyd yn gartref i gyfleusterau hamdden awyr agored i'r gogledd, yn cynnwys Criced Corwen, Clwb Pêl-droed a chae chwarae. Mae nifer o westai a llety gwely a brecwast i ymwelwyr. Symudiadau cerbydau a pharcio sy'n cael y lle blaenllaw yn ardal ganolog canol y dref, ond mae rhywfaint o le i eistedd a chyfleusterau cyhoeddus o flaen siopau lleol..
- Mannau Cyhoeddus - Mae nifer o fannau cyhoeddus allweddol yng Nghorwen ac mae'r prif rai yng nghanol y dref ble mae'r siopau a'r caffis. Mae gofod gwyrdd mawr i'r gogledd-ddwyrain hefyd gydag ardal bicnic a allai gynnwys ystod ehangach o weithgareddau.
- Unedau gwag - Mae sawl adeilad gwag yng nghanol y dref, mae angen gwaith cynnal a chadw ar rai ohonynt ac mae eu tu blaen yn flêr. Mae cyfraddau'r adeiladau gwag yng Nghorwen wedi bod yn uchel iawn ers tro byd, ac yng Nghorwen a Dinbych mae'r cyfraddau uchaf o holl ganol trefi Sir Ddinbych.
- Twristiaeth - Oherwydd ei bod yn Nyffryn Dyfrdwy a bod ganddi asedau treftadaeth megis Rheilffordd Llangollen, un o'r tlotai olaf yng Nghymru a bod yr Eisteddfod yr Urdd gyntaf wedi'i chynnal yma, mae gan y dref rôl sylweddol o ran twristiaeth a'r potensial i'w wella eto. Oherwydd ei bod ger Mynydd y Berwyn a bod llwybrau natur a golygfeydd godidog o gwmpas y dref, mae'n cynnig cyfleoedd hamdden ar gyfer cerdded a beicio mynydd.
- Preswyl - Mae nifer o ardaloedd preswyl bychan yn y dref, yn cynnwys bythynnod traddodiadol Cymreig a therasau o oes Fictoria ar hyd y stryd sy'n ychwanegu at gymeriad cyffredinol y dref. Mae strategaethau ehangach wedi dynodi cyfleoedd i ddarparu mwy o gartrefi yng Nghorwen yn y dyfodol, gan gynyddu'r galw a photensial ei chynnig manwerthu a hamdden presennol.

**Roedd cyfraddau'r adeiladau gwag yng Nghorwen yn 24.4% yn 2019, ond roeddent wedi codi i 26.7% yn 2024.**



Arwyddion cyfeirio presennol yn y dref



Y rheilffordd treftadaeth a'r prif borth i'r dref


Y ffordd yn flaenllaw yng nghanol y dref gyda phalmentydd cul


Terasau deniadol ar hyd Stryd y Bont


Prif ofod cymunedol anniben yng nghanol y dref


Y prif arhosfan bws ym maes parcio Corwen


Corwen FC
Corwen Cricket Club
Green Lane
Bridge Street
The Square
Hill Street
Mill Street
A5
London Road
Corwen Pavilion Site
Coed Pen-y-Pigyn Viewpoint
Legend
Ffin y Safle
Canol y Dref
Ffordd
Ardal i gerddwyr
Symud ffordd arfaethedig
Tynnu'r arhosfan bws arfaethedig
Arhosfan Bws Arfaethedig
Blaenoriaeth i gerddwyr
Llwybr teithio llesol arfaethedig
Parc
Maes Prosiect Allweddol
Adeilad Hanesyddol Allweddol
Adeilad Cymunedol Allweddol
Gwell Llwybr i gerbydau
Gwell Llwybr i gerddwyr
Porth gwell
Pavement widening
Gofod cyhoeddus
Golygfeydd allweddol i'w dal
Gwell arwyddbyst
Cyffordd T arfaethedig
Llwybr teithio llesol
Cyfle adfywio i'r dyfodol
Blaenoriaeth i gerddwyr
Ffin Datblygu
Ffin Canol y Dref
Ffin Cadwraeth

# Dadansoddiad o Ganol y Dref




## Lleoliad Ffisegol

### Lleoliad

- Cyfleusterau - Mae cyfleusterau sylfaenol yn y dref yn cynnwys siopau, becws, caffis, swyddfa'r post a fferyllfa. Mae toiledau cyhoeddus yn yr orsaf fysiau hefyd a nifer o westai / unedau llety.
- Hamdden - Mae'r cyfleusterau hamdden yn y dref i'r Gogledd o ganol y dref yn bennaf. Mae hyn yn cynnwys cae pêl-droed, clwb criced, cwrt tennis a chae chwarae. Mae amgueddfa a llwybrau cerdded natur y gellir eu defnyddio ar gyfer hamdden.
- Cysylltedd - Mae'r cysylltedd o gwmpas Corwen yn dibynnu ar geir yn bennaf. Mae symudiadau cerddwyr a beiciau yn gyfyngedig ar y ffyrdd oherwydd y palmentydd cul o ansawdd gwael. Mae rhwydwaith ehangach o hawliau tramwy cyhoeddus o amgylch y dref yng Nghoedwig Cynwyd ac ar hyd Afon Dyfrdwy.
- Topograffeg - Mae'r dref ar ymyl Coed Pen y Pigyn a darn gwastad o dir gyferbyn ag Afon Dyfrdwy. Mae hyn yn arwain ar newid topograffeg o'r gogledd i'r de, yn enwedig ar y llwybr at y llwybrau natur sy'n mynd yn weddol serth dros bellter byr. Ond mae hyn yn golygu bod golygfeydd o Ben y Pigyn i'r de o'r dref sy'n edrych dros y dref a'r dirwedd o'i chwmpas.
- Isadeiledd Gwyrdd - Mae'r isadeiledd gwyrdd yn gyfyngedig yng nghanol tref Corwen ond mae'n agos at ystod eang o fannau gwyrdd. Mae nifer o botiau blodau o gwmpas canol y dref.

**Mae Corwen mewn ardal o harddwch naturiol eithriadol ac mae'n bosibl y gallai gael ei hychwanegu at y Parc Cenedlaethol newyddarfaethedig yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.**

### Parth Cyhoeddus

- Mannau Cyhoeddus - Mae canol tref Corwen yn ganolbwynt i weithgarwch cymunedol a rhyngweithio cymdeithasol, gyda defnydd cymysg ac ardaloedd eistedd. Mae'r gofod yn cael ei gyfyngu ar hyn o bryd gan isadeiledd y ffyrdd gan fod cyfran ohono'n fannau parcio
- Green Spaces - There is a large green space Mannau Gwyrdd - Mae gofod gwyrdd mawr i'r Gogledd Ddwyrain o ganol y dref, y gellid ei wella i'r cyhoedd ei ddefnyddio. Mae mannau picnic ar hyd yr ardal hon hefyd, ond mae'r hyn sydd o'i gwmpas yn wael ar hyn o bryd gan ei fod ger ardal barcio fawr. Mae man agored cyhoeddus mawr i'r gogledd hefyd, sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cyfleusterau chwaraeon a hamdden. Mae nifer o lwybrau cerdded o gwmpas yr ardal, ond gellid gwella'r cysylltiadau rhyngddynt i gerddwyr a beicwyr.
- Porth Canolfannau Lleol - Mae pyrth i'r canol wedi'u diffinio'n wael ac nid ydynt yn groesawgar. Eu prif nodweddion yw symudiadau ceir ac mae'r porth o'r orsaf reilffordd yn arwain at faes parcio mawr, sy'n rhoi synnwyr gwael o gyrraedd.
- Strydoedd - Ychydig iawn o isadeiledd gwyrdd sydd ar y strydoedd ac mae sawl adeilad gwael sy'n niweidio naws cyffredinol y dref.
- Glan yr Afon a Llwybrau Natur - Mae Afon Dyfrdwy yn llifo drwy Gorwen, sy'n golygu bod y dirwedd yn hardd ac mae'n cyfrannu at y ffaith ei bod yn ardal o harddwch naturiol eithriadol. Hefyd, mae llwybrau natur yng nghefn gwlad yn caniatáu mynediad i'r cyhoedd i archwilio tirwedd yr ardal. Gellid gwella cyfleoedd i wella cysylltiadau a chyfeirio at lwybrau presennol ac asedau natur i godi ymwybyddiaeth ohonynt i ymwelwyr.
- Celf Gyhoeddus - Mae cyfleoedd yng Nghorwen i gyflwyno celf gyhoeddus i ychwanegu at gymeriad y dref a gwella ansawdd y dref.


Toiledau cyhoeddus gyferbyn â'r arhosfan bysiau ym maes pario Corwen



Newid topograffeg ar Hill Street


Gofod gwyrdd mawr ger y rheilffordd


Gwesty Owain Glyndŵr yng nghanol y dref


Hen strydoedd cul



Llwybr Natur Coed Pen y Pigyn


Clawdd Poncen Housing / Tyn y Llidiart Industrial Estate Employment
Corwen FC
Corwen Cricket Club
Green Lane
Bridge Street
The Square
Hill Street
A5
Coed Pen-y-Pigyn Viewpoint
Legend:
Development Boundary
Conservation Boundary
Town Centre Boundary
Buildings
Car Parking
Greenspaces
Woodland
River
Train Station
Railway
Bus Station
Bus Stop
Poor Building State
Car Dominance in Public Space
Poor Public Space
Connection to Green Space
Steep Pedestrian Link
Poor/Inactive Frontages
Playing Fields
Cricket Pitch
Park
Museum
Place of Worship
Shops
Cafe
Restaurant
Accommodation

## Dadansoddiad o Ganol y Dref

Mae’r graff gwe pry cop yn dangos dau ddimensiwn o berfformiad Corwen yn erbyn y 6 egwyddor creu lleoedd a nodir yn Siarter Creu Lleoedd Cymru. Mae’r graff hwn yn darparu crynodeb ddefnyddio i ganfod meysydd lle mae’r dref yn tan berfformio, a lywiodd y gwaith o ddatblygu cynigion a dewisiadau. Mae’r sgoriau’n seiliedig ar y wybodaeth a gesglir a’r canfyddiadau a lunnir o’r dadansoddiad o ganol y dref. Mae’r canlynol yn darparu setiau meini prawf sydd wedi cael eu mabwysiadu i asesu Corwen:

**Hunaniaeth**

1. Hunaniaeth unigryw
2. Synnwyr cryf o dreftadaeth a diwylliant
3. Diogel a chroesawgar
4. Defnydd cryf o ddarlunio delweddau / adrodd straeon

**Symudiad**

1. Teithio Llesol wedi’i fodloni’n dda
2. Llwybrau hydraidd sy’n adlewyrchu llwybrau answyddogol
3. Cludiant cyhoeddus diogel a chyfleus
4. Blaenoriaethu pobl dros gerbydau

**Pobl a Chymuned**

1. Cyfleoedd ar gyfer cydlyniant cymunedol
2. Defnydd cryf o’r Gymraeg
3. Hyrwyddo balchder cymunedol
4. Mynediad da at gyfleusterau cymunedol

**Parth Cyhoeddus**

1. Adeiladau a strydlun o ansawdd uchel
2. Cyfeirbyst ac eglurdeb cryf
3. Darparu gofodau cynhwysol i bawb
4. Isadeiledd gwyrdd wedi’i integreiddio’n dda

**Defnydd Cymysg**

1. Darpariaeth ar gyfer cynulleidfa amrywiol
2. Canol tref fywiog
3. Mannau gwyrdd aml-swyddogaeth amrywiol
4. Economi dydd a nos cryf

**Lleoliad**

1. Cysylltiad da ac yn cefnogi’r cyd-destun ehangach
2. Cysylltiad gyda natur ar raddfeydd gwahanol
3. Graddfa a dwysedd priodol
4. Defnydd tir effeithlon

| Sgôr Sylfaenol: | |
|---|---|
| 1 | Yn tanberfformio’n sylweddol yn erbyn yr egwyddorion a nodir o fewn y Canllaw Creu Lleoedd |
| 2 | Yn tanberfformio yn erbyn yr egwyddorion a nodir o fewn y Canllaw Creu Lleoedd |
| 3 | Yn bodloni’r egwyddorion a nodir o fewn y Canllaw Creu Lleoedd |
| 4 | Yn rhagori ar yr egwyddorion a nodir o fewn y Canllaw Creu Lleoedd |
| 5 | Yn rhagori’n sylweddol ar yr egwyddorion a nodir o fewn y Canllaw Creu Lleoedd |

Yn seiliedig ar ein harsylwadau, rydym wedi cynnal adolygiad ansoddol a goddrychol o rinweddau creu lleoedd Corwen. Mae angen hyn gan ei fod yn ymdrin ag agweddau dynol ac ymarferol nad ellir eu cipio’n llawn trwy fesurau meintiol yn unig. Mae creu lle yn golygu creu gofodau sy’n cyd-fynd â hunaniaeth, emosiynau a chyd-destun diwylliannol pobl, gan wneud gwerthusiad goddrychol yn angenrheidiol i asesu ffactorau fel apêl weledol, synnwyr o berthyn ac ymgysylltiad cymunedol.



| Yr Egwyddor Creu Lle | Arsylwadau Allweddol | Sgôr |
|---|---|---|
| **Hunaniaeth** | | **12** |
| 1. Hunaniaeth unigryw | Mae gan Gorwen hunaniaeth bensaernïol unigryw sy'n amlwg yn ei hadeiladau rhestredig niferus, yn cynnwys Eglwys Sant Mael a Sant Sulien, Gwesty Owain Glyndŵr a Wyrcws Corwen. Mae cyfle i wella'r asedau treftadaeth hyn. | 4 |
| 2. Synnwyr cryf o dreftadaeth a diwylliant | Gyda'i gwreiddiau'n ddwfn yn ei chysylltiadau hanesyddol ag Owain Glyndŵr a'r ffaith arbennig i'r Eisteddfod yr Urdd gyntaf gael ei chynnal yma, mae synnwyr cryf o dreftadaeth yn y dref. Mae'r byrddau gwybodaeth treftadaeth yma ac acw yn y dref yn adnodd gwerthfawr, yn cynnig gwybodaeth i ymwelwyr am y pwysigrwydd diwylliannol. | 4 |
| 3. Diogel a chroesawgar | Pyrth wedi'u diffinio'n wael ac nid ydynt yn groesawgar. Mae symudiad cerbydau'n nodweddiadol ohonynt sy'n gadael palmentydd cul i gerddwyr. | 2 |
| 4. Defnydd cryf o ddarlunio delweddau / adrodd straeon | Mae sawl adeilad nodweddiadol â phlac yn cynnwys gwybodaeth am ddefnydd hanesyddol yr adeilad. Gellid gwella ansawdd yr asedau hyn. | 2 |
| **Pobl a Chymuned** | | **10** |
| 1. Cyfleoedd ar gyfer cydlyniant cymunedol | Mae gan Gorwen fannau cymunedol pwysig megis Eglwys Sant Mael a Sant Sulien a Chanolfan Gymunedol Corwen, ond mae'n dioddef o lawer o adeiladau gwag. | 3 |
| 2. Defnydd cryf o'r Gymraeg | Mae llawer o arwyddion a hysbysiadau cyhoeddus yng Nghorwen yn ddwyieithog, cynhelir digwyddiadau diwylliannol yn y dref sy'n arddangos y Gymraeg. | 3 |
| 3. Hyrwyddo balchder cymunedol | Mae adeiladau o bwys pensaernïol sydd angen eu cynnal a'u cadw ac sy'n cyfrannu at y gyfradd adeiladau gwag o 26.7% yn y dref. | 2 |
| 4. Mynediad da at gyfleusterau cymunedol | Mae mynediad at gyfleusterau cymunedol i gerddwyr yn wael a rhoddir blaenoriaeth uchel i ddefnyddio car. | 2 |
| **Defnydd Cymysg** | | **9** |
| 1. Darpariaeth ar gyfer cynulleidfa amrywiol | Mae cymysgedd gadarnhaol o sefydliadau annibynnol, gydag ystod eang yn cael eu cynnig y tu hwnt i ganol y dref. Mae angen cyfleusterau hamdden gwell. | 3 |
| 2. Canol tref fywiog | Ychydig o opsiynau â dewis o fwyd, diod a siopau sydd yn y dref, sy'n darparu cynnig cyfyngedig. | 2 |
| 3. Mannau gwyrdd aml-swyddogaeth amrywiol | Mae mannau gwyrdd mawr yn amgylchynu'r dref ond mae cyfleoedd i wella'r cynnig o ran amwynderau a chysylltiadau teithio llesol atynt. | 3 |
| 4. Economi dydd a nos cryf | Mae opsiynau bwyd a diod a defnydd hamdden cyfyngedig ar gael i gefnogi economi dydd a nos cryf. | 1 |
| **Symudiad** | | **9** |
| 1. Teithio Llesol wedi'i fodloni'n dda | Mae isadeiledd teithio llesol yn gyfyngedig yn y dref, mae hawliau tramwy cyhoeddus presennol yn amgylchynu'r dref ac yn croestorri'r dref i'r Gogledd/De. | 2 |
| 2. Llwybrau hydraidd sy'n adlewyrchu llwybrau answyddogol | Mae cymysgedd o lwybrau uniongyrchol ac anuniongyrchol drwy'r dref, ac mae cyfleoedd i wella'r cysylltiadau o'r orsaf i ganol y dref. | 3 |
| 3. Cludiant cyhoeddus diogel a chyfleus | Mae Corwen yn elwa o reilffordd hanesyddol yn cysylltu â Llangollen a llwybr bysiau drwy'r dref. | 3 |
| 4. Blaenoriaethu pobl dros gerbydau | Mae symudiad cerddwyr drwy'r dref yn gwrthdaro â'r isadeiledd cerbydau presennol, mae cyfran fawr o sgwâr y dref yn fannau parcio. | 1 |
| **Parth Cyhoeddus** | | **10** |
| 1. Adeiladau a strydlun o ansawdd uchel | Mae cymeriad pensaernïol cryf yn creu strydlun difyr a deniadol ond mae'r isadeiledd cerbydau yn y parth cyhoeddus yn amharu arno. | 3 |
| 2. Cyfeirbyst ac eglurdeb cryf | Mae maint a chyfres o strwythurau tirnodau a chelf gyhoeddus yn helpu ag eglurder, gellid gwella'r cyfeirbyst rhwng lleoliadau allweddol yn y dref. | 2 |
| 3. Darparu gofodau cynhwysol i bawb | Gall ardaloedd o'r parth cyhoeddus fod yn anodd i grwpiau penodol megis pobl hŷn neu ifanc iawn, ychydig iawn o isadeiledd i gerddwyr sydd o fewn canol y dref. | 2 |
| 4. Isadeiledd gwyrdd wedi'i integreiddio'n dda | Mae mannau gwyrdd yn hawdd cyrraedd atynt o ganol y dref, mae cyfleoedd ar gyfer integreiddio gwyrddni fertigol yn y canol hanesyddol. | 3 |
| **Location** | | **13** |
| 1. Well connected and supports wider context | Mae'r cysylltedd o amgylch Corwen yn dibynnu'n drwm ar gerbydau. Mae symudiadau teithio llesol yn gyfyngedig oherwydd palmentydd cul ac isadeiledd cyfyngedig. | 3 |
| 2. Connections to nature at different scales | Mae'r dirwedd o amgylch y dref yn cynnig ystod eang o fannau gwyrdd yn agos at ganol y dref. | 4 |
| 3. Appropriate scale and density | Mae dwysedd isel i'r bensaernïaeth a'r ffurf adeiledig sy'n briodol i raddfa canol y dref. | 4 |
| 4. Land is use efficiently | Gellid defnyddio'r tir yn fwy effeithlon, mae posibl i'r ardaloedd o amgylch yr orsaf reilffordd ddarparu cyfleoedd hamdden a masnachol newydd. | 2 |





# 03

# Uchelgeisiau a Strategaeth Lleodd

## Gweledigaeth ac Uchelgeisiau Craidd

Ar ôl cwblhau'r dadansoddiad o le, paratowyd cyfres o uchelgeisiau lleoedd craidd i ddarparu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol ar gyfer y dref, gan fframio'r math o fuddsoddiad a phrosiectau a fydd yn cael eu dilyn. Mae'r dyheadau'n ymateb i'r dadansoddiad o le ac adborth budd-ddeiliaid allweddol. Cyflwynir yr uchelgeisiau craidd isod ger pob un o'r Egwyddorion Siarter Creu Lleoedd.

### Gweledigaeth

Adfer hunaniaeth Corwen fel tref farchnad a'i sefydlu fel cyrchfan groesawgar a deniadol i ymwelwyr. Bydd Corwen yn cynnwys Stryd Fawr fywiog, mannau cyhoeddus deniadol, ac ymdeimlad cymunedol cryf. Gan gefnogi busnesau lleol a dathlu ei threftadaeth a'i hasedau naturiol, bydd Corwen yn dod yn fan cychwyn a gorffen dymunol i ymwelwyr sydd â diddordeb yn hanes a diwylliant yr ardal. Bydd amgylchedd diogel a deniadol, ynghyd â chynigion amrywiol a diwylliannol yn annog ac yn denu'r gymuned leol ac ymwelwyr i ddathlu a mwynhau Corwen, gyda'i hunaniaeth gyfoethog a hanesyddol unigryw a'i chysylltiad cryf gyda natur.

**LLEOLIAD FFISEGOL**

**GWEIT**

**CYRCHFAN DDENIADOL I YMWELWYR**

... sy'n defnyddio lleoliad daearyddol unigryw Corwen i ddenu ymwelwyr a chefnogi busnesau lleol, a'i sefydlu fel canolfan fywiog yn y rhanbarth.

LLEOLIAD

**PARTH CYHOEDDUS CROESAWGAR A DIFYR**

... ble mae mannau hygyrch, wedi'u cadw'n dda yn adlewyrchu treftadaeth Corwen, gan feithrin rhyngweithio cymdeithasol a balchder cymunedol.

PARTH CYHOEDDUS

**TREF GYSYLLTIEDIG A HYGYRCH**

...drwy opsiynau cludiant cynaliadwy ac effeithlon sy'n cysylltu Corwen â'r ardaloedd o'i chwmpas, a'i gwneud yn haws i breswylwyr ac ymwelwyr symud o gwmpas.

SYMUDIAD




HREDU

YSTYR

### ECONOMI LEOL AMRYWIOL A FFYNIANNUS

...yn cynnwys cymysgedd o fannau preswyl, masnachol a diwylliannol sy'n creu cymuned ddeinamig a bywiog.

DEFNYDD CYMYSG

### CYMUNED Â CHALON GREF

...ble mae mentrau dan arweiniad gwirfoddolwyr ac amgylchedd cynhwysol yn sicrhau bod preswylwyr yn cael eu gwerthfawrogi, eu cynnwys a'u cysylltu.

POBLE A CHYMUNED

### DATHLIAD O DDIWYLLIANT A THREFTADAETH CYMRU

...sy'n cadw a hyrwyddo hunaniaeth unigryw Corwen drwy ddigwyddiadau diwylliannol, adrodd straeon lleol a gwerthfawrogi ei hasedau hanesyddol a naturiol.

HANANIAETH

## Strategaeth Lle a Rhestr Ymyraethau

### Cyfleoedd yn y Gorllewin

- Mentrau perthnasol sy'n cael eu datblygu
- Uchelgeisiau lleoedd craidd a gefnogir:
- Symudiad
- Lleoliad
- Pobl a Chymuned
- Defnydd Cymysg
- Parth Cyhoeddus
- Hunaniaeth

1. Nodi cyfres o gyfleoedd buddsoddi i wella ffasadau gwael ar hyd Stryd y Bont a'r Sgwâr, i greu strydlun mwy deniadol a chydlynol, a gwella ansawdd a chymeriad adeiladau hanesyddol megis Gwesty Owain Glyndŵr.
2. Comisiynu murluniau a chelf gyhoeddus â chysylltiadau i ddathlu'r Gymraeg a diwylliant Cymru i drawsnewid tu blaen adeiladau negyddol a dod â bywiogrwydd i'r dref. Buddsoddi mewn gwyrddni a phlannu ar y stryd i wella'r parth cyhoeddus a'r amgylchedd trefol cyffredinol, a thirlunio o gwmpas ffyrdd a phyrth allweddol i'r dref, yn enwedig i wella'r Lôn Werdd a Stryd y Bont, wrth gynnal bioamrywiaeth a gwytnwch yr hinsawdd.
3. Archwilio ymyriadau a strategaethau sy'n ceisio mynd i'r afael â chrynodiad unedau gwag ac adeiladau adfeiliedig (e.e. cymorth grantiau i wella adeiladau, unedau preswyl / gwaith) yn rhan orllewinol canol y dref. Ystyried y potensial ar gyfer cartrefi newydd a all gyfrannu at fywiogrwydd Corwen, gan helpu i ymdrin ag anghenion tai lleol a chynnal crynodiad busnesau yng nghanol y dref.
4. Clirio'r Sgwâr a chreu lle mwy positif i fwynhau'r amgylchedd hanesyddol unigryw a chryf, galluogi busnesau i ledaenu i'r parth cyhoeddus a'i lenwi, cydlyniant cymdeithasol cymunedol a chreu amgylchedd mwy addas a phriodol i adeiladau rhestredig yr ardal.
5. Gwella cyfeirbyst ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o ddigwyddiadau lleol gyda byrddau gwybodaeth digidol treftadaeth/tref dwyieithog newydd yng Ngorsaf Corwen a'r Sgwâr. Defnyddio hysbysfyrddau digidol er mwyn gallu hyrwyddo digwyddiadau a chyfleusterau lleol yn well.
6. Archwilio'r cyfle i osod wyneb newydd ar Stryd o Bont o flaen Gwesty'r Goron a'r gyffordd ble mae'r Lôn Werdd yn cwrdd â'r Sgwâr, gan greu amgylchedd mwy croesawgar i gerddwyr a lleihau cyflymdra cerbydau; yn cynnwys gosod y wyneb newydd ar y ffordd a mwy o bwyslais ar fannau croesi. Mae angen craffu technegol pellach ar hyn.
7. Replace dangerous perpendicular short stay parking bays with parallel disabled parking spaces that can also be used within restricted times for servicing on The Square/A5 road, allowing more pavement space for businesses to use and improve the overall safety and attractiveness of the area.
8. Defnyddio mannau parcio cyfochrog i bobl anabl y gellir eu defnyddio hefyd o fewn amseroedd cyfyngedig ar gyfer gwasanaethu ar y Sgwâr/ffordd yr A5 yn hytrach na'r baeau parcio perpendicwlar arhosiad byr peryglus presennol, gan wneud mwy o le ar y palmant i fusnesau eu defnyddio a gwella diogelwch ac atyniad cyffredinol yr ardal.


Enghraifft o Wyrddni ar y


Enghraifft o Arwyneb sy'n Blaenoriaethu Cerddwyr a Chyffordd â Phalmant



Enghraifft o Gyfeirbyst Digidol


Enghraifft o Gysylltiadau Teithio Llesol gwell



Enghraifft o Ardal Awyr Agored dan Gysgod


Enghraifft o furlun yn dangos hunaniaeth


Heritage Railway
Drewyn Giant Trail
Library
Corwen Museum
Corwen Workhouse
St Mael and St Sulien's Church
to Coed Pen-y-Pigyn
Coed Pen-y-Pigyn Viewpoint
Green Lane
Bridge Street
The Square
Hill Street
A5
London Road
1
2
3
4
5
6
7
8
Legend
Ffin y Safle
Canol y Dref
Ffordd
Ardal i gerddwyr
Symud ffordd arfaethedig
Tynnu'r arhosfan bws arfaethedig
Arhosfan Bws Arfaethedig
Blaenoriaeth i gerddwyr
Llwybr teithio llesol arfaethedig
Parc
Maes Prosiect Allweddol
Adeilad Hanesyddol Allweddol
Adeilad Cymunedol Allweddol
Gwell Llwybr i gerbydau
Gwell Llwybr i gerddwyr
Porth gwell
Pavement widening
Gofod cyhoeddus
Golygfeydd allweddol i'w dal
Gwell arwyddbyst
Cyffordd T arfaethedig
Llwybr teithio llesol
Cyfle adfywio i'r dyfodol
Blaenoriaeth i gerddwyr
Ffin Datblygu
Ffin Canol y Dref
Ffin Cadwraeth

## Strategaeth Lle a Rhestr Ymyraethau

### Cyfleoedd yn y Dwyrain

Mentrau perthnasol sy'n cael eu datblygu
Uchelgeisiau lleoedd craidd a gefnogir:
Symudiad
Lleoliad
Pobl a'r Gymuned
Defnydd Cymysg
Parth Cyhoeddus
Hunaniaeth

9. Archwilio'r posibilrwydd o gyfuno'r Ganolfan Gymunedol ac Amgueddfa Corwen i un ganolfan ddiwylliannol a chymdeithasol well

10. Cyflwyno ardaloedd hamdden awyr agored newydd ar gyfer pethau fel parc sglefrio a llecyn gemau amlddefnydd wrth ymyl Parc Coffa'r Rhyfel i ddarparu ardal benodol ar gyfer hamdden pobl ifanc sy'n dod â budd i les lleol.

11. Archwilio'r posibilrwydd o sefydlu dau lwybr unffordd ar hyd y Lôn Werdd a'r unig gyswllt bws presennol drwy Faes Parcio Corwen i symleiddio llif y traffig a lleihau troadau tynn, yn amodol ar fwy o waith dichonolrwydd. Defnyddio'r tir adferedig i greu cysylltiadau teithio llesol gwell, mannau mwy diogel i gerddwyr ac amgylchedd mwy croesawgar ac eglur i Gorwen.

12. Symud ffordd yr A5 tua'r gogledd i greu palmentydd lletach ar hyd ochr ddeheuol y Sgwâr ac o flaen Gwesty Owain Glyndŵr i wella diogelwch i gerddwyr a hygyrchedd drwy ganol y dref.

13. Creu lle hyblyg dan gysgod i gynnal marchnadoedd a digwyddiadau awyr agored ar hen safle'r pafiliwn ac i'r gogledd o Ganolfan Fusnes Llys Edeyrnion, er mwyn helpu i bontio'r bwlch rhwng y rheilffordd dreftadaeth a chanol y dref a rhoi bywyd newydd i'r ardal. Mae potensial ar gyfer strwythur parhaol yma fyddai'n cysgodi rhag y tywydd gydag isadeiledd i hwyluso digwyddiadau i ymwelwyr a'r gymuned.

14. Creu man cyrraedd gwell i gerddwyr yn y maes parcio, gan wella'r cysylltiadau rhwng Gorsaf Corwen a chanol y dref a gwella'r synnwyr o gyrraedd i ymwelwyr. Gosod byrddau treftadaeth a map cyfeirio cynhwysfawr yn y porth i'r rheilffordd dreftadaeth i addysgu ymwelwyr a'u harwain drwy lwybr wedi'i fapio o fannau o ddiddordeb hanesyddol. Dylid gwneud gwelliannau i'r parth cyhoeddus o gwmpas Maes Parcio Corwen hefyd i wella eglurder a phrofiad ymwelwyr.

15. Darparu canolfan reilffordd, bws ac ymwelwyr yn y man cyrraedd i Gorwen o'r orsaf, gydag ystod o gyfleusterau i bobl leol ac ymwelwyr posibl yn cynnwys defnydd teithio llesol, mannau cadw beics yn ddiogel a man aros ar gyfer bysiau a thoiledau.

16. Ehangu'r cynnig hamdden drwy gynnwys ardal chwarae naturiol o fewn ôl-troed y Cawr, gan ddarparu cyfleoedd difyr ac unigryw i deuluoedd. Byddai hwn yn fan cychwyn cyffrous ar gyfer 'Llwybr y Cawr Drewyn' sy'n bodoli eisoes, gan annog archwilio a gweithgareddau awyr agored. Hefyd, mae cyfle i wella bioamrywiaeth yr ardal drwy gynyddu'r amrywiaeth o blanhigion a gwella cynefinoedd lleol.

17. Cryfhau llwybrau treftadaeth/tref a natur Corwen gyda mwy o gyfeirbyst ac arwyddion ar hyd a lled y dref. Archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio'r ardal rhwng y Wyrcws, yr Emporiwm a'r Cyfleuster Hydro i greu porth gwell y gellir ei ddefnyddio ar gyfer pethau eraill hefyd sy'n cysylltu llwybrau Coed Pen y Pigyn a chysylltu'r Wyrcws ag adfywiad treftadaeth y dref.


Enghraifft o Ganolfan Ymwelwyr Treftadaeth


Enghraifft o Ardal Chwarae ar Thema Natur


Enghraifft o Ardal Hyblyg dan Gysgod


Enghraifft o Faes Parcio Gwyrdd



Enghraifft o Ddefnydd Arall Dros Dro


Enghraifft o Arwyddion Cyfeirio at Lwybr Natur


Heritage Railway
Drewyn Giant Trail
Library
Corwen Museum
Corwen Workhouse
St Mael and St Sulien's Church
to Coed Pen-y-Pigyn
Coed Pen-y-Pigyn Viewpoint
Green Lane
Bridge Street
The Square
Hill Street
A5
London Road
10
11
12
13
14
15
16
17
9
Legend
Ffin y Safle
Canol y Dref
Ffordd
Ardal i gerddwyr
Symud ffordd arfaethedig
Tynnu'r arhosfan bws arfaethedig
Arhosfan Bws Arfaethedig
Blaenoriaeth i gerddwyr
Llwybr teithio llesol arfaethedig
Parc
Maes Prosiect Allweddol
Adeilad Hanesyddol Allweddol
Adeilad Cymunedol Allweddol
Gwell Llwybr i gerbydau
Gwell Llwybr i gerddwyr
Porth gwell
Pavement widening
Gofod cyhoeddus
Golygfeydd allweddol i'w dal
Gwell arwyddbyst
Cyffordd T arfaethedig
Llwybr teithio llesol
Cyfle adfywio i'r dyfodol
Blaenoriaeth i gerddwyr
Ffin Datblygu
Ffin Canol y Dref
Ffin Cadwraeth

## Strategaeth Lle a Rhestr Ymyraethau

### Cyfleoedd Ehangach

- Mentrau perthnasol sy'n cael eu datblygu
- Uchelgeisiau lleoedd craidd a gefnogir:
- Symudiad
- Lleoliad
- Pobl a'r Gymuned
- Defnydd Cymysg
- Parth Cyhoeddus
- Hunaniaeth

18. Archwilio cyfleoedd i wella ac ehangu llwybrau teithio llesol a llwybrau beicio i bentrefi cyfagos, gan annog cludiant cynaliadwy. Ystyried cyfleoedd ar gyfer llwybr beicio newydd ar hyd y Lôn Werdd a'r B5437 gan gysylltu canol Corwen, y Ganolfan Hamdden a Chlawdd Poncen yn well. Byddai gwelliannau o'r fath yn darparu llwybrau mwy diogel a hygyrch i feicwyr a cherddwyr, gan hyrwyddo dewisiadau teithio iach a lleihau allyriadau carbon wrth gysylltu cyrchfannau lleol allweddol.

    Mae'r ymyriad hwn yn cefnogi prosiect peilot Clawdd Poncen drwy gysylltu cymuned Clawdd Poncen â'r llwybr teithio llesol Corwen i Ruthun a rhoi mynediad at Ganolfan Hamdden Corwen. Mae hefyd yn cyfrannu at y weledigaeth o lwybr teithio llesol crwn rhwng Gorsaf Reilffordd Corwen a Chlawdd Poncen, gan ddod â budd i breswylwyr ac ymwelwyr.

19. Archwilio cyfleusterau posibl ar gyfer llogi beiciau i bobl leol ac ymwelwyr, a hynny wrth y porth o'r rheilffordd dreftadaeth. Byddai'r fenter hon yn annog teithio cynaliadwy, yn caniatáu i ymwelwyr archwilio mwy o lwybrau hardd ac atyniadau'r ardal wrth gefnogi twristiaeth yn lleol a lleihau dibyniaeth ar gerbydau.

20. Darparu llwybr gwell at danffordd Afon Dyfrdwy a allai gysylltu'n llyfn â llwybrau hamdden eraill, neu ar hyd y darn o reilffordd segur i'r gogledd o Orsaf Corwen, gan ei gwneud yn haws i bobl leol ac ymwelwyr fynd at lan yr afon.

21. Archwilio'r posibilrwydd o sefydlu ardal lansio benodol ar gyfer gweithgareddau dŵr ar hyd Afon Dyfrdwy, gan greu man cychwyn cyfleus i weithgareddau fel caiacio, canŵio a phadl-fyrddio, gan ychwanegu agwedd hamdden newydd i'r ardal.

22. Archwilio'r posibilrwydd o ddarparu sied drenau y gellid ei defnyddio ar gyfer sawl peth i ychwanegu at y buddsoddiad gyda'r rheilffordd dreftadaeth. Mae gan y sied drenau'r potensial i fod yn lle hyblyg gyda mannau penodol ar gyfer gweithio, hyfforddiant ac addysg. Gellid ei defnyddio fel sied gynnal, gweithdy peiriannau a chyfleusterau i ymwelwyr. Byddai'n cefnogi'r gwaith o adfer trenau, byddai'n cynnwys amgueddfa fechan a gwybodaeth hanesyddol, ynghyd â mannau cymunedol fel caffi ac ardal i gynnal digwyddiadau ac arddangosfeydd.

23. Datblygu cynllun cynaliadwy i gadw ac ail-ddefnyddio'r Wyrcws fel ased dreftadaeth ac addysg allweddol. Gallai'r ased unigryw hwn gael ei ddefnyddio i ail-greu'r profiad o fod mewn wyrcws yn Oes Fictoria, ynghyd â mannau hyblyg ar gyfer y gymuned, addysg a gweithgareddau diwylliannol. Gellid ei ddefnyddio fel amgueddfa, arddangosfeydd hanesyddol ymarferol, gofod swyddfa fforddiadwy a gardd gymunedol. Byddai'n denu ymwelwyr o bob cwr o Ogledd Cymru ac yn darparu cyflogaeth yn lleol, cyfleoedd dysgu a lleoliad diwylliannol bywiog ar gyfer digwyddiadau ac arddangosfeydd.



Enghraifft o Weithgaredd Afon




Enghraifft o le i logi beiciau



Enghraifft o Sied Trên Aml-ddefnydd



Enghraifft o Lwybrau Teithio Egnïol


Legend
Ffin y Safle
Canol y Dref
Ffordd
Ardal i gerddwyr
Symud ffordd arfaethedig
Tynnu'r arhosfan bws arfaethedig
Arhosfan Bws Arfaethedig
Blaenoriaeth i gerddwyr
Llwybr teithio llesol arfaethedig
Parc
Maes Prosiect Allweddol
Adeilad Hanesyddol Allweddol
Adeilad Cymunedol Allweddol
Gwell Llwybr i gerbydau
Gwell Llwybr i gerddwyr
Porth gwell
Pavement widening
Gofod cyhoeddus
Golygfeydd allweddol i'w dal
Gwell arwyddbyst
Cyffordd T arfaethedig
Llwybr teithio llesol
Cyfle adfywio i'r dyfodol
Blaenoriaeth i gerddwyr
Ffin Datblygu
Ffin Canol y Dref
Ffin Cadwraeth
Green Lane
River Dee
London Road
The Square
A5
18
19
20
21
22
23

## Dadansoddiad o Ganol y Dref

## Ar ôl gweithredu'r Cynigion

Mae'r graff gwe pry cop yn dangos dau ddimensiwn o berfformiad Corwen yn erbyn y 6 egwyddor creu lleoedd a nodir yn Siarter Creu Lleoedd Cymru. Mae'r graff yn rhoi crynodeb defnyddiol i ddangos sut fyddai gweithredu'r cynigion yn gwella pob agwedd o'r dref, o'i gymharu â'r sgoriau blaenorol.

**Hunaniaeth**

1. Hunaniaeth unigryw
2. Synnwyr cryf o dreftadaeth a diwylliant
3. Diogel a chroesawgar
4. Defnydd cryf o ddarlunio delweddau / adrodd straeon

**Pobl a Chymuned**

1. Cyfleoedd ar gyfer cydlyniant cymunedol
2. Defnydd cryf o'r Gymraeg
3. Hyrwyddo balchder cymunedol
4. Mynediad da at gyfleusterau cymunedol

**Defnydd Cymysg**

1. Darpariaeth ar gyfer cynulleidfa amrywiol
2. Canol tref fywiog
3. Mannau gwyrdd aml-swyddogaeth amrywiol
4. Economi dydd a nos cryf

**Symudiad**

1. Teithio Llesol wedi'i fodloni'n dda
2. Llwybrau hydraidd sy'n adlewyrchu llwybrau answyddogol
3. Cludiant cyhoeddus diogel a chyfleus
4. Blaenoriaethu pobl dros gerbydau

**Parth**

1. Adeiladau a strydlun o ansawdd uchel
2. Cyfeirbyst ac eglurdeb cryf
3. Darparu gofodau cynhwysol i bawb
4. Isadeiledd gwyrdd wedi'i integreiddio'n dda

**Lleoliad**

1. Cysylltiad da ac yn cefnogi'r cyd-destun ehangach
2. Cysylltiad gyda natur ar raddfeydd gwahanol
3. Graddfa a dwysedd priodol
4. Defnydd tir effeithlon

| Baseline scores: | |
|---|---|
| 1 | Yn tanberfformio'n sylweddol yn erbyn yr egwyddorion a nodir o fewn y Canllaw Creu Lleoede |
| 2 | Yn tanberfformio yn erbyn yr egwyddorion a nodir o fewn y Canllaw Creu Lleoedd |
| 3 | Yn bodloni'r egwyddorion a nodir o fewn y Canllaw Creu Lleoedd |
| 4 | Yn rhagori ar yr egwyddorion a nodir o fewn y Canllaw Creu Lleoedd |
| 5 | Yn rhagori'n sylweddol ar yr egwyddorion a nodir o fewn y Canllaw Creu Lleoedd |

Mae angen adolygiad ansoddol a goddrychol o nodweddion Creu Lleoedd Corwen gan ei fod yn mynd i'r afael ag agweddau dynol ac ymarferol nad ellir ei gipio'n llawn trwy fesurau meintiol yn unig. Mae creu lle yn golygu creu gofodau sy'n cyd-fynd â hunaniaeth, emosiynau a chyd-destun diwylliannol pobl, gan wneud gwerthusiad goddrychol yn angenrheidiol i asesu ffactorau fel apêl gweledol, synnwyr o berthyn ac ymgysylltiad cymunedol.



| Yr Egwyddor Creu Lle | Arsylwadau Allweddol | Score |
|---|---|---|
| **Hunaniaeth** | | **17** |
| 1. Hunaniaeth unigryw | Gwella'r cymeriad drwy strydlun cydlynol a gwelliannau i ffasadau ar hyd Stryd o Bont a'r Sgwâr, creu mwy o fywiogrwydd gyda murluniau a chelf cyhoeddus yn dathlu diwylliant Cymru. | 5 |
| 2. Synnwyr cryf o dreftadaeth a diwylliant | Adfywio Gwesty Owain Glyndŵr a'r adeiladau hanesyddol gan atgyfnerthu balchder diwylliannol. Gosod mwy o gyfeirbyst a byrddau treftadaeth yng Ngorsaf Corwen ac ar draws y dref i gysylltu ymwelwyr â hanes unigryw Corwen. | 5 |
| 3. Diogel a chroesawgar | Gwella'r pyrth a diogelwch y parth cyhoeddus drwy osod gwyrddni ar y stryd, arwyddion gwell a phalmentydd lletach pan fo'n bosibl. | 3 |
| 4. Defnydd gref o ddarlunio delweddau / adrodd straeon | Murluniau a chelf gyhoeddus yn cyfleu'r Gymraeg a straeon Cymru. Llwybrau treftadaeth a byrddau digidol yn cyfoethogi'r straeon am orffennol a diwylliant Corwen. | 4 |
| **People and Community** | | **17** |
| 1. Cyfleoedd ar gyfer cydlyniant cymunedol | Mae ardaloedd hamdden newydd a chanolfannau cymunedol yn meithrin cysylltiadau cymdeithasol a chymuned yn dod ynghyd, wrth wella hygyrchedd at bethau sy'n bodoli eisoes, fel llyfrgell. | 5 |
| 2. Defnydd cryf o'r Gymraeg | Bydd Corwen yn cryfhau ei phresenoldeb dwyieithog drwy fyrddau gwybodaeth ac arwyddion digidol newydd sy'n dathlu'r Gymraeg a threftadaeth Cymru gyda murluniau treftadaeth. | 4 |
| 3. Hyrwyddo balchder cymunedol | Bydd adfer adeiladau hanesyddol a gwella ffasadau yn atgyfnerthu balchder lleol yn nhreftadaeth Corwen. | 4 |
| 4. Mynediad da at gyfleusterau cymunedol | Canolfan Gymunedol aml swyddogaeth, fwy a llyfrgell ac amgueddfa hygyrch yn cynnig gwasanaethau gwell. | 4 |
| **Defnydd Cymysg** | | **15** |
| 1. Darpariaeth ar gyfer cynulleidfa amrywiol | Ardaloedd hamdden awyr agored newydd megis parc sglefrio a mannau chwarae, sy'n apelio at grwpiau oedran gwahanol. | 4 |
| 2. Canol dref fywiog | Strydlun a llwybrau teithio llesol gwell yn cynyddu nifer yr ymwelwyr a chefnogi bywiogrwydd canol y dref. | 4 |
| 3. Mannau gwyrdd aml-swyddogaeth amrywiol | Mentrau gwyrddni a thirlunio ar lwybrau allweddol yn darparu mannau gwyrdd amrywiol ar gyfer hamdden, gyda chysylltiadau gwell at asedau gwyrdd sy'n bodoli eisoes. | 4 |
| 4. Economi dydd a nos cryf | Mannau cyhoeddus bywiog a goleuadau gwell i gefnogi oriau estynedig i fusnesau a mannau cymdeithasol. | 3 |
| **Symudiad** | | **15** |
| 1. Teithio Llesol wedi'i letya'n dda | Cyfleusterau newydd i logi beiciau a llwybrau teithio llesol estynedig i gefnogi opsiynau cludiant cynaliadwy. | 4 |
| 2. Llwybrau hydraidd sy'n adlewyrchu llwybrau answyddogol | Tirlunio strategol ac aildrefnu llwybrau allweddol i wella llif cerddwyr a chysylltedd. | 4 |
| 3. Cludiant cyhoeddus diogel a chyfleus | Cyfleusterau gwell yn yr arhosfan bysiau a'r rheilffordd dreftadaeth i wella'r hyn sydd yno'n barod. | 4 |
| 4. Blaenoriaethu pobl dros gerbydau | Mae dyluniadau ffyrdd sy'n ystyried cerddwyr i leihau cyflymder cerbydau yn meithrin amgylchedd y mae pobl yn ganolog ynddo. | 3 |
| **Parth Cyhoeddus** | | **15** |
| 1. Adeiladau a strydlun o ansawdd uchel | Ffasadau gwell a mwy o wyrddi ar y stryd i roi hwb i apêl a chymeriad Corwen. | 4 |
| 2. Cyfeirbyst ac eglurdeb cryf | Mae arwyddion, cyfeirbyst a gwybodaeth am dreftadaeth yn helpu gyda llywio i ymwelwyr a phobl leol. | 4 |
| 3. Darparu gofodau cynhwysol i bawb | Mae mannau hamdden, canolfannau cymunedol a chysylltiadau gwell i gerddwyr yn sicrhau cynhwysiant. | 3 |
| 4. Isadeiledd gwyrdd wedi'i integreiddio'n dda | Mae gwyrddni a thirlunio ar hyd y prif strydoedd, pyrth ac ardaloedd hamdden yn darparu integreiddio naturiol ym mhobman. | 4 |
| **Lleoliad** | | **17** |
| 1. Cysylltiad da ac yn cefnogi'r cyd-destun ehangach | Cysylltiadau teithio llesol gwell yn cysylltu Corwen â'r ardaloedd a'r cyfleusterau cyfagos. | 4 |
| 2. Cysylltiad gyda natur ar raddfeydd gwahanol | Mae mannau gwyrdd, llwybrau a mannau mynediad newydd at yr afon yn darparu cysylltiadau gyda natur ar sawl graddfa. | 5 |
| 3. Graddfa a dwysedd priodol | Mae defnydd tir sy'n cydbwyso cartrefi newydd, busnesau a mannau cymunedol yn cyd-fynd â chyd-destun ac anghenion Corwen. | 4 |
| 4. Defnydd tir effeithlon | Mae gan leoliadau aml-ddefnydd megis sied drenau newydd a Chanolfan Gymunedol, y potensial i wella'r defnydd tir yng Nghorwen at ddibenion amrywiol a gwneud gwell defnydd o fannau gwyrdd mawr, megis Cae Drewyn y Cawr. | 4 |

theurbanists


**Caerdydd**

Westgate House,
11 Stryd Womanby,
Caerdydd, CF10 1BR

**Bryste**

1.13 Temple Studios,
Lower Approach Road
Bryste, BS1 6QA

**Email**

info@theurbanists.net

**Phone**

029 2023 6133

**www.theurbanists.net**